

ECO'R WYDDFA

Rhif 158

MAI 1990

Pris 25c

TIPO'N O FARGEN

£1,000 AM 25 CEINIOG | DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

Dros 14 mlynedd a 158 rhifyn bu *Eco'r Wyddfa*'n adrodd hanesion ardal Dyffryn Peris ond y mis hwn ni ein hunain sy'n creu'r newyddion gyda chymorth perchennog garej leol.

Os ydych chi'n chwilio am gar newydd mae'r 25 ceiniog a warioch ar brynu'r papur hwn yn werth mil o bunnoedd ym Modurdy London Garage, Cwm-y-Glo. Ceir manylion llawn ar dudalen 11.

Mae'n gynnig *ecsclicwsif* i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* — chi a neb arall sy'n cael y cyfle i arbed swm mor fawr.

Perchnogion London Garage, Cwm-y-Glo yw Dafydd a Jackie Hughes. Daw Jackie o'r pentref, ond cofi dre' ydi Dafydd a ddaeth i weithio i London Garage — garej Wil Chick gynt — yn syth o'r ysgol. Trwy ddilyn cyrsiau mecanic mewn colegau lleol gweithiodd ei hun 'o'r sbanar i fyny'. Yn awr mae'n canolbwyntio ar sgiliau busnes ar ôl ennill asiantaeth Fiat, cynhyrchwyr ceir mwyaf Ewrop.

Mae'r garej erbyn hyn yn cyflogi 5 llawn amser a 3 rhan amser yn ogystal a Dafydd a Jackie. 'Ni ydi'r unig garej yn y wlad i gael ein huwchraddio o 'service dealer' i 'main dealers'. Mae tiriogaeth London Garage yn ymestyn i Ddwyfor a Gogledd Meirionnydd.

Ond medd Dafydd Hughes, 'I ddatlu agor ein showroom newydd yng Nghwm-y-Glo roeddem am wneud cynnig arbennig i'n cwsmeriaid agosaf. Y ffordd orau o'u cyrraedd yw colofnau *Eco'r Wyddfa*'.

Dafydd Hughes ei hun a gododd y showroom, gan weithio fin nos a thros y Sul ar ôl cau'r

garej. 'Roedd yn weithred o ffydd y ceid y dealership. Pan ddechreuais ei chodi roedd eraill yn cystadlu yn ein herbyn ar yr hawl i werthu ceir Fiat,' meddai.

'Yn ogystal â'r Tipo a'r Uno mae car newydd y Tempra yn dod allan ym mis Gorffennaf. Mae gan Fiat ddewis gyda'r gorau o unrhyw gwmni.' Ychwanega, 'mae Fiat yn gwario cyfran uwch o'u harian ar ymchwil na hyd yn oed yr Americanwyr. Robots Fiat sy'n bildio llawer o geir Ford ac Austin Rover'.

Gyda thwf Garej John Trevor i fod yn brif garej Pugeot-Talbot

yng Ngwynedd, a Garej Minffordd, Bethel, yn llewyrchu gydag Austin Rover mae dewis rhyfeddol o 'main dealers' ym mro'r *Eco*. Ceir llu o garejus llai fel Gwalia Garage, Caeathro, a Modurdy'r Wyddfa yn Llanberis. Mae bysus KMP yn Llanberis a bysus Arvonnia yn Llanrug yn ffynnu ac felly hefyd fflud o gwmnïau tacsis ac ysgolion moduro.

Oes y modur yw hon yn wir ym mro *Eco'r Wyddfa*.

Pan fydd Cymru fel Lithwania yn datgan ei hanibyniaeth, lwc owt os atelir y petrol!

* PWYSIG * PWYSIG * PWYSIG

TREFNIANT ARBENNIG AR GYFER Y RHIFYN NESAF

Daw rhifyn Mehefin o'r 'Eco' allan ar ganol wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd — nos Iau, Mai 31ain. Mae holl swyddogion yr 'Eco' yn stiwardio neu'n gofalu am blant a chystadleuwyr ifanc yn ystod yr wythnos honno.

DALIER SYLW!

CASGLU NEWYDDION

NI DDERBYNNIR UNRHYW NEWYDDION HWYR ar gyfer y rhifyn hwnnw. **RHAID** i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn **NOS FAWRTH, MAI 22ain**. Ni fydd y golygyddion yn cysidro unrhyw newyddion a anfonir iddynt ar ôl y dyddiad hwnnw.

TREFNIANT PLYGU

Mae trefniant arbennig ar gyfer **NOS IAU, MAI 31ain**. Bydd yr 'Eco' yn cael ei blygu yn Neuadd Ysgol Gymuned **CWM-Y-GLO** am **6.30**. **NID** trigolion Cwm-y-Glo fydd yn gyfrifol am yr holl blygu. **RHAID I BOB PENTREF OFALU AM GRIW O BLYGWYR** i fod yn gyfrifol am eu pentref eu hunain. Os na fydd cynrychiolwyr o'ch pentref yn bresennol i'r plygu, ni ellir gwarantu y bydd *Eco'r Wyddfa* ar gael i chi.

Gyda diolch am eich cydweithrediad am yr un tro hwn yn unig.



CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

yn y
SEFYDLIAD COFFA
LLANRUG

Nos Iau, Mai 3ydd
am 7.30 o'r gloch

CROESO CYNNES I'R HOLL
DDARLLENWYR

ECO'R WYDDFA

RHIF 158
MAI 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWEITHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerald, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 31ain

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

MAI 22ain

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

CYNLLUN TWRISTIAETH GLYN RHONWY

Annwyl Olygydd,
Mae Cymdeithas yr Iaith yn
croesawu'r newydd fod Leading
Leisure PLC wedi tynnu allan o
gynllun twristiaeth Glyn Rhonwy
yn Llanberis, ar ôl ymgyrchu
penderfynol gan bobl a mudiadau
lleol ac amheuron cynyddol
ynghylch hygyddedd y cynllun a'r
cwmni.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw
yn awr ar Gyngor Bwrdeistref
Arfon i roi'r gorau i'r cynllun ffôl
hwn yn gyfangwbl, ac i gychwyn
trafodaethau ar unwaith efo
'Padarn' a mudiadau lleol eraill
ynghylch ffyrdd eraill o ddefnyddio
safle Glyn Rhonwy a fyddai'n
dwyn budd i'r gymuned yn lle ei
dinistrio. Galwn ar Gyngor Arfon
hefyd i beidio ag ystyried unrhyw
gynlluniau twristiaeth eraill heb yn
gyntaf gomisiynu dadansoddiad
manwl o'u heffeithiau ar y
gymuned, yr iaith a'r amgylchedd,
ac i beidio â chymeradwyo unrhyw
gynllun a allai fod yn niweidiol yn
hyn o beth.

Cafodd 3 aelod o Gymdeithas yr
Iaith ddirwy o £100 yr un yn
ddiweddar am eu rhan mewn
protest yn erbyn y cynllun
afresymol hwn. Gan fod eu safiad
yn awr wedi'i gyfiawnhau,
byddwn yn gyrru bil am £300 at
Gyngor Bwrdeistref Arfon, a fu'n
gyfrifol am orfodi pobl i weithredu
fel hyn er mwyn amddiffyn
cymunedau Cymreig.

Mae'r holl ffisago hwn yn
dangos yn eglur yr angen am
DDEDDF EIDDO i warchod
cymunedau Cymru. Pe bai'r fath
Ddeddf mewn grym, byddai'n
rhaid i gynghorau wneud
dadansoddiad manwl o effeithiau
cynlluniau fel Glyn Rhonwy, ac ni
fyddai'n gyfreithlon iddyn nhw
(nac i'r Swyddfa Gymreig) roi
caniatad cynllunio ar gyfer
cynlluniau a fyddai'n debygol o
niweidio'r gymuned, yr iaith neu'r
amgylchedd.

Am wybodaeth bellach cysyllter
â: Angharad Tomos, 0286 77543
(oriau swyddfa); Tim Webb, 0248
355846 (ar ôl oriau swyddfa);
Helen Greenwood, 0970 624501
(oriau swyddfa)

Annwyl Olygydd,
Fel y cyhoeddwyd ar dudalen blaen
yr Eco mis diwethaf, sicrhawyd
buddugoliaeth fawr yn dilyn
penderfyniad Cwmni Leading
Leisure i beidio â symund ymlaen
i ddatblygu safle Glyn Rhonwy fel
pentref gwyliau anferth.

Diolch i'r drefn mai dyma sut y
bu i bethau droi allan gan y
gwyddai pawb call a chyfrifol yn
ein mysg ers y cychwyn cyntaf mai
cynllun cwbl anymarferol ac ynfyd
ydoedd. Eto er mawr cywilydd
iddynt, ni welodd Cyngor Arfon yn
dda i wrando ar y farn honno. Yn
hytrach bu iddynt benderfynu bod
yn styfnig a phen galed ynglŷn â'r
holl fater. Meddyliwch o ddifri sut
fuasai arnom heddiw pe byddai

Cyngor Arfon wedi cael eu ffordd
ac wedi rhoi caniatad cynllunio i'r
fath ddatblygiad. Coeliwch fi,
gwaith diolch sydd gennym na
ddigwyddodd y fath erchylltra.

Wrth gwrs edrych ymlaen sydd
angen i ni ei wneud yn awr a'r dasg
nesaf yw gweithio syniadau allan
a'u dwyn at ei gilydd ar gyfer creu
y math o swyddi y gallwn i gyd
ymfalchio ynddynt. Mae'n dasg
fawr ond nid un amhosibl. Os
dangoswn yr un dyncwch a
arweiniodd at rwystro Cwmni
Leading Leisure rhag dod yma yna
nid oes reswm yn y byd pahan na
allwn lwyddo. Cyfrifoldeb pob un
ohonom yn awr yw mynd ati i
ymateb i'r sialens ac os dymunwch
ymuno yn y gwaith yma gyda ni
yna dewch i gysylltiad â mi yn
ddiymdroi. Mae croeso i chwi
gysylltu â mi ar y ffon (Llanberis
870576) neu anfon gair i'r
cyfeiriad isod.

Llawer o ddiolch,

Yn gywir iawn,

GLYN TOMOS,
(Cadeirydd PADARN)
Pen y Bwlch,
Dinorwig.



WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

MAI
13-19

Annwyl Olygydd,
Dymunaf eich cyfarch ar drothwy
Wythnos Cymorth Cristnogol (Mai
13-19), a'ch gwahodd i gefnogi'r
amrywiol weithgareddau a
gynhelir yn eich hardal eleni.

Mae llawer ohonoch yn
gweithio'n ddiwyd yn eich
hardaloedd a gwerthfawrogi eich
hymroad a'ch brwdfrydedd drwy
greu ymwybyddiaeth ymysg pobl
eich cylch am gyflwr bywyd yn y
Trydydd Byd. Mawr ddiolch hefyd
i bawb sy'n casglu a threfnu
gweithgareddau i godi arian. Bu
cyfraniadau hael pawb yn
gaffaeliad i Gymorth Cristnogol i
gynorthwyo'n partneriaid tramor
mewn llawer gwlad.

Thema Wythnos Cymorth
Cristnogol am eleni yw: 'Y Byd yw
ein cymuned - hwn yw ein tâl'.

Bu llawer o drafod a dadlau

GWYBODAETH AM CERIDWEN GRUFFYDD

Annwyl Olygydd,
Tybed a gaf i ddefnyddio pwt o le
i ofyn am gymorth? Yr wyf yn
ceisio chwilota am ffeithiau
bywgraffyddol ac hyd yn oed
ffotograffau o'r awdures Ceridwen
Gruffydd (1891-1968). A oes rhai
o'n darllenwyr â atgofion amdani
ac yn fodlon cyfrannu?

Yn ddiolchgar,
DAFYDD GUTO,
1 Tan y Ffordd,
Bethel.

PERERINDOD GYMRAEG I WLAD BELG

Annwyl Olygydd,
Hoffwn roi gwybod i'ch darllenwyr
fod eto le i bwy bynnag a
ddymunai ymuno ar y
BERERINDOD GYMRAEG I WLAD
Y BEIBL drefnwyd ar gyfer Awst
16-25 eleni. Byddwn yn hedfan o
Lundain i Amman, prifddinas
Gwlad lorrddonen, ac un o
ddinasoedd y Decapolis yng
nghyfnod gweinidogaeth Iesu
Grist. Ymwelir â nifer o fannau
diddorol yng Ngwlad lorrddonen ac
Israel: mannau fel Petra, Gerasa,
Bryn Nebo, Bethlehem, Nasareth,
Jerico, Capernaum, Jerwsalem.
Bydd cyfle i ymweld â'r Môr
Marw, Cwmrân (lle darganfuwyd
y sgroliau enwog), a Masada, ac
i fynd ar gwch ar Fôr Galilea.

Y mae bwriad i gael bws
arbennig i deithio o Ogledd Cymru
i'r maes awyr ac yn ôl. Credwn y
bydd hynny o fantais arbennig i'r
rhai sydd am ymuno â ni o Ogledd
Cymru.

Dylai pwy bynnag sydd â
diddordeb, neu a garai dderbyn
rhagor o fanylion, gysylltu â mi yn
Nhŷ John Penry, 11 Heol Sant
Helen, Abertawe SA1 4AL. A dylid
gwneud hynny ar unwaith.

IOAN W. GRUFFYDD,
Ysgrifennydd Cenhadol,
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.
(Ffôn 0792 652542)

ynglŷn â'r 'tâl cymuned' neu 'dreth
y pen'. Ond does dim dadl fod y tâl
y cyfeirir ato yn thema Wythnos
Cymorth Cristnogol am ei fod yn
gwahodd pobl i roi yn ôl eu gallu
- sy'n hollol deg, er mwyn sicrhau
cyfiawnder i bobl ar lefel byd eang.

R'ym yn aelodau o'r teulu dynol
ac mae'n perthnasau yn perthyn i
gymunedau tlotaf y byd. Mae
cariad yn ein herio i sefyll gyda
nhw er mwyn iddynt fwynhau
bywyd tecach, iachach a glanach.

Defnyddir eich 'tâl cymuned'
adeg Wythnos Cymorth
Cristnogol, sef eich rhodd tuag at
brosiectau megis: Dŵr glân i
drigolion gwledydd Nicaragua,
gofal iechyd i bentrefwyr
diarffordd Bangladesh, adeiladu
tai, ysgolion ac ysbytai yn Namibia
a lloches a gofal i'r alltudion sy'n
dychwelyd i El Salvador.

Gwelir felly y gall ein rhodd fod
yn gymorth i ofalu am gymuned y
byd gan ddod â gobaith newydd i
filiynau.

Gwahoddaf chwi ar ran
Cymorth Cristnogol yng Nghymru
i gyfrannu yr hyn a fedrwch ei
fforddio i'r casglyddion yn eich
ardal, neu ddanfod rhodd yn
uniongyrchol at: Swyddfa
Genedlaethol Cymorth Cristnogol,
Rhif Blwch 21, Caerdydd CF4 2DL

Gyda llawer o ddiolch am bob
cyfraniad,

Yn ddiffuant iawn,
Y PARCH WYNN VITTLE,
Swyddfa Cymorth Cristnogol,
27 Heol yr Eglwys,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF4 2DX

Llafar

MEWN DWYLO DIOGEL?

Mae cynlluniau ar droed ar hyn o bryd i gyfuno'r Comisiwn Cefn Gwlad a'r Cyngor Gwarchod Natur, a chreu tri Quango pwerus ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr. Mae cyfarwyddwr Cymdeithas Ddiogelu Cymru Wledig — Neil Caldwell — wedi beirniadu'n hallt y bwriad hwn o greu 'Cyngor Cefn Gwlad Cymru'. Ar y llaw arall, mae'r Gweinidog Gwladol, Wyn Roberts A.S. wedi datgan: 'The new Countyside Council will contribute significantly to the development of policies which reflect the particular needs of Wales.' Yn anffodus, ni eglurwyd ganddo beth yn hollol oedd y polisiau rheini, na chwaith beth oedd 'anghenion arbennig Cymru' yng ngolwg y Toriaid.

Mwy arwyddocaol yw'r amheuan ei bod yn fwriad i dynnu rheolaeth y Parciau Cenedlaethol oddi ar yr Awdurdodau Lleol, a'i roi yn gyfangwbl yn nwylo'r Cyngor Cefn Gwlad newydd — ac aelodau hwnnw i gyd wedi eu dewis gan Ysgrifennydd Cymru. Hyd yn oed ar hyn o bryd, mae traean aelodau pwyllgorau'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu hapwyntio gan Ysgrifennydd Cymru. Mae'r gweddill yn aelodau etholedig y Cynghorau Sir.

Mae 20% o holl dir Cymru o fewn tri Parc Cenedlaethol — Eryri, Penfro a Bannau Brycheiniog — ac felly, o'r tu allan i reolaeth gyfangwbl ddemocrataidd fel sydd yn nwylo awdurdodau cynllunio y Cynghorau Dosbarth.

Yng Ngwynedd, mae'r sefyllfa yn debygol o fod yn fwy argyfyngus. Mae 55% o dir y sir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Pe bai awdurdod y Parciau Cenedlaethol yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cefn Gwlad newydd, yna, byddai gan bobl Gwynedd reolaeth ddemocrataidd ar lai na hanner tir y sir. Byddai'r gweddill i gyd yn nwylo penodiadau uniongyrchol y Swyddfa Gymreig.

Ym mro 'Eco'r Wyddfa', mae ardaloedd Nant Peris, Pentre Castell (Llanberis), Salem a Betws Garmon i gyd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. A phe bai'r amheuan ynglŷn â bwriadau'r Llywodraeth i roi rheolaeth y Parciau Cenedlaethol yn nwylo Quango fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cael eu gwireddu, yna ni fyddai gan etholwyr yr ardaloedd rheini unrhyw lais na hawliau ynglŷn â datblygiadau ar eu libart eu hunain.

Hawdd iawn yw i'r Gweinidog Gwladol ddatgan mai gwir warchodwyr cefn gwlad yw'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Ond ai pypedau maneg yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol yw'r rhai mwyaf addas i warchod ein treftadaeth ynteu cynrychiolwyr etholedig y bobl?

RADIO YSBYTY GWYNEDD — UNED DARLLEDU ALLANOL —

Annwyl Olygydd,
Mudiad gwirfoddol yw Radio Ysbyty Gwynedd sy'n cynnal gwasanaeth darlledu o gwmpas Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Rhan bwysig o'n gweithgareddau yw'r Uned Darlledu Allanol, sy'n caniatáu i gyngherddau a dramau lleol gael eu darlledu drwy'r ddwy ysbyty. Fel rheol, gwnawn hyn drwy recordio, ac yna golygu'r recordiad cyn ei ddarlledu, ond o dro i dro byddwn yn trosglwyddo cyngerdd yn fyw o gwmpas yr ysbytai.

Er mwyn ehangu gweithgareddau'r Uned, rydym yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr. Buasai rhywfaint o wybodaeth dechnegol yn help, ond nid yn hanfodol o bell ffordd; pwysicach yw brwdfrydedd ac ambell i gyda'r nos i'w sbario.

Os oes gan rai o'ch darllenwyr ddiddordeb, neu angen mwy o fanylion am y math o waith y

mae'r uned yn ei wneud, buaswn yn falch iawn pe gallasent roi galwad i mi ar y rhif isod, wedi 6pm.

Gyda diolch,
GWYN ROBERTS,
Bangor 352425.

O.N. Os byddwch yn trefnu cyngerdd, ac yn meddwl y gall fod o ddiddordeb i'r rhai sy'n treulio cyfnod yn yr ysbyty, rhowch alwad ar yr un rhif os gwelwch yn dda.



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

'MAER Y DREF'



Cwmni Drama Blwyddyn 6 Ysgol Brynrefail a fu'n perfformio 'Maer y Dref' yn Neuadd yr Ysgol yn ddiweddar. Dyma gynhyrchiad olaf Alwyn Pleming gan ei fod yn ymddeol ddiwedd tymor yr haf eleni.

Yn y llun mae holl aelodau'r cast: sefyll (o'r chwith i'r dde) Angharad Elis, Trystan Thomas, Ian Parry, Amlkyn Ll. Evans, Sharon Williams a Iestyn Roberts; eistedd (o'r chwith i'r dde) Alwyn Pleming (cynhyrchydd), Angharad Price, Eurgain Haf Evans a Sioned Williams.

CEFNOGWYR Y NANT

Annwyl Olygydd,

Dyma sgwennu at eich darllenwyr mewn da bryd gobeithio i'ch gwahodd i ymuno â thîm Cefnogwyr y Nant fydd yn rhedeg ym Mini-

Farathon yr Urdd eleni eto (Sadwrn, Mehefin 16). Codi arian i'r Ganolfan Iaith yn Nant Gwrtheyrn yw y nod wrth gwrs.

Erbyn hyn llwyddasom i godi'r £10,000 i baratoi tîm i'r methedig yn y Nant. Bellach mae 'Canllaw'r Bont' yn rhes Trem-y-Mynydd wedi cartrefu niferoedd o ddysgwyr yr iaith ac yn eu plith amryw o bobl na fuasai wedi medru ymdrin â byw mewn tîm cyffredin. Mae ein diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd ymhob modd tuag at baratoi'r tîm arbennig hwn.

Ein bwriad eleni yw cynnig 10 ysgoloriaeth i bobl ifainc o'r bumed flwyddyn a chwech un sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn ein hysgolion uwchradd. Byddwn yn cysylltu â phob ysgol uwchradd yng Nghymru i wahodd y disgyblion i wneud cais am le yn y Nant yn ystod wythnos Gorff. 20-27. Eisoes cysylltwyd â'r Ganolfan Iaith i sicrhau lle i ddeg yr wythnos honno.

Bydd raid talu am hyn wrth gwrs a'n gobaith yw codi £1,500 — swm cymharol fach ac un y dylem fedru ei godi os cawn ddigon o goesau i redeg o amgylch Llyn Tegid. Os codwn fwy na'r nod yna gallwn gynnig yr un ysgoloriaethau eto y flwyddyn nesa'.

Hyderaf y cytunwch â ni fod

hybu ein hieuenctid i ddysgu'r iaith yn iawn yn holl bwysig. Nhw yw rhieni y dyfodol ac mae ennill dysgwyr ifainc llwyddiannus yn hanfodol i ddyfodol y Gymraeg.

Edrychaf ymlaen i gael cadarnhad o'ch bwriad i redeg. Does dim gwell achos na pharhad y Gymraeg.

Yn obeithiol,
MOI PARRI

Golygfan, Allt-y-Golch, Carmel,
Treffynnon, Clwyd.
Ffôn: Treffynnon 0352 713603

"HEADWAY"

Annwyl Olygydd,

Tua dwy flynedd yn ôl anfonais gylch lythyr i holl bapurau bro Gwynedd i hysbysebu sefydlu cangen o 'Headway' Gwynedd, Gogledd Cymru. Erbyn heddiw, mae'r gangen yn datblygu o nerth i nerth, ac yr ydym yn dod i gysylltiad â mwy a mwy o deuluoedd yng Ngwynedd sy'n awyddus i drafod eu problemau. Gan mai mudiad yw 'Headway' sy'n ymwneud â phobl ifainc a dderbyniodd anaf difrifol i'r pen, y mae problemau'r teuluoedd yn unigryw ac er mai grwp gwirfoddol ydym, gallwn gynorthwyo trwy ddod a phobl at ei gilydd, ac ambell waith, eu cyflwyno i aelodau o'r gwasanaeth iechyd a all fod o gymorth iddynt.

Erbyn hyn, y mae 'Headway' yn adnabyddus trwy Brydain, a chynhelir cyfarfodydd trwy Brydain benbaladr yn ystod yr wythnos olaf yn Ebrill, 1990.

Os oes unrhyw deulu yn eich ardal sy'n gyfrifol am berson ifanc gydag anaf i'r pen, dewch i gysylltiad â mi.

CLEDWYN JONES,
'Tawelfan'
Penrhosgarnedd,
Bangor,
Gwynedd, LL57 2NA.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Felinheli 670 726)

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am **GRIW O
BLYGWYR** i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

LLONGYFARCHIADAU i Eleri Robinson, Llinos Ann Roberts a Llinos Angharad Morris ar eu llwyddiant mewn arholiad piano yn ddiweddar. Llwyddodd y dair i basio'r arholiadau gyda merit, Eleri ar Radd 1 a'r ddwy Llinos ar Radd 3. Mae'r tair yn ddisgyblion i Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin. YSGOL FEITHRIN: Dydd Gwener, Chwefror 23 mwynhaodd plant y dosbarth hynaf ymweliad â Swyddfa Dosbarthu'r Post ar Stad Cibyn, Caernarfon.

Er siomedigaeth doedd Postmon Pat ddim yn gallu bod yn bresennol ond fe gafodd pob un anrheg bach i gofio'r ymweliad. Mae ein diolch yn fawr iawn i Mr Brian Jones, y Rheolwr am ei amser a'i gydweithrediad.



Dydd Iau, Mawrth 1, ymwelodd yr Ysgol Feithrin â Chastell Caernarfon. Roedd y plant yn edrych yn hynod o ddel yn eu gwisgoedd Cymreig a chafodd pawb gyfle i ymlwybro oddi fewn i hen furiau y Castell. Mae ein diolch i CADW am drefnu yr ymweliad.

LLWYDDIANT YN ARLUNIO: Llongyfarchiadau i Huw Llewelyn Jones ar ddod yn fuddugol yn y Sir am wneud llun yn y gystadleuaeth arlunio dan 12 oed. Pob lwc i Huw yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd Swper Gŵyl Dewi y gangen leol yng Nghegin y Marcwis, Llanfairpwll. Wedi pryd arbennig o dda cafwyd gwledd arall yng nghwmni John Ogwen a Maureen Rhys yn rhoi darlenniadau doniol a chofiadwy. Diolchwyd iddynt gan

Mrs Mair Read. Enillwyr y rafflau oedd Margaret Owen, Mair Price, Cissie Roberts, Mary G. Williams, Glenys Griffiths, Elen Ellis a Meinir Roberts. Dymunwyd penblwydd hapus i Annie E. Williams, Mair Jones a Mary Griffiths.

Nos Fercher, Ebrill 4, daeth y Parchedig Harold Parry Jones at y gangen yn lle Mr Gruffydd Richard Jones a oedd yn methu â bod yn bresennol oherwydd gwaeledd. Rhoddodd dipyn o hanes Bethel a'i atgofion am yr ardal. Diolchwyd iddo gan Mrs Mary Griffiths. Paratowyd te a bisgedi gan Mrs Ceinwen Jones, Mrs Mair Jones a Mrs Mary Williams, ac enillwyd y raffl gan Mrs Mary Grace Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fai 3 pan fydd Mrs Eluned Bebb Jones yn wraig wadd. Ar Fai 9 bydd nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yn y noson chwaraeon yn y Ganolfan Hamdden, Caernarfon.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Helen Jones, Garreg Goch ar ei dyweddïad i Aled Wyn Edwards o Drefynnon.

CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON YSGOL BETHEL: Ar Fawrth 30 cafwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus iawn yn yr ysgol gan y Gymdeithas. Yn y Ffair gwerthwyd rhifyn cyntaf o bapur newydd Ysgol Bethel.

Dyma enwau enillwyr y noson: Raffl Fach: Potel o Win — Mrs Michael; Bocs o Siocled — Mrs Farrer.

Y Brif Raffl — Wyl Pasg: Mrs Julia Griffiths; Potel o Sieri: Mr Geraint Ellis; Pêl Rygbi: Bethan Jones; Bocs o Siocled: Susan Roberts; Potel o Win: Mrs Elizabeth Jones; Bocs o Nwyddau: Mrs Eunice Roberts; Addurn blodau: Mrs Mabel Jones.

Am ddyfalu faint o bys mewn jar enillodd Gwenan Michael deisen Basg. Jar o Smarties gafodd Delyth Michael am ddyfalu y nifer o Smarties ynddi. Am gael hyd i'r trysor cafwyd Gwenan Ellis wyl Pasg. Cafodd Nia Jones wyl Pasg am ddyfalu enw'r cymeriad cudd.

Huw Foulkes ddyfalodd enw'r tedi yn gywir a chafodd yntau wyl Pasg.

Gwnaeth y Ffair dros £500 o elw. Dymuna aelodau'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion. EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Apêl yn ddiweddar, penderfynwyd cynnal un gweithgaredd arall i ddod a popeth i ben.

Fel canlyniad i hyn cynhelir DISGO yn y Neuadd, Mai 11 rhwng 6.30 a 9 o'r gloch. Bydd Cwn Poeth, creision a diodydd ar werth.

Am mai hwn fydd y gweithgaredd olaf, hoffai y Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r holl bentrefwyr am bob cefnogaeth dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner.

Bydd yr elw o'r disgo yn mynd at brynu fflagiau i addurno'r pentref i groesawu plant i'r

Eisteddfod.

URDD — ADRAN BENTREF: Erbyn hyn mae gweithgareddau y gangen leol wedi gorffen am y flwyddyn. Cawsom nosweithiau difyr yng nghwmni Leslie Larsen, Penisarwaun, a Dafydd Guto, Bethel, ac i ddiweddu'r tymor bu'r holl aelodau i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon i fwynhau noson o chwaraeon.

Cawn edrych ymlaen rwan i wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym mharc Glynllifon. Mae llawer o blant y pentref yn cymeryd rhan yn y gweithgareddau fin nos, felly, os am wledd, archebwch docynnau ar unwaith.

Mae'r Pwyllgor yn trefnu bws i'r Gymanfa ganu Fodern prynhawn Sul, Mai 27, felly os dymunai rhywun ymuno â'r gangen i fynd i'r gymanfa, cysylltwch â Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, (670102) yn ddiymdroi.

CLWB FFERMWYR IEUANC YN TACLUSO NEUADD BENTREF BETHEL



**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH

**WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR,
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

**4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047**

NEWIDIADAU YN Y GWASANAETH BYSUS

Ers dechrau mis Ebrill, mae amryw o aelodau'r cyhoedd wedi bod yn datgan pryder ynglyn a'r gwahanol newidiadau i'r gwasanaeth bysus yn y fro. Mae'n ymddangos mai trigolion pentref Bethel sy'n dioddef fwyaf, ond daeth cwynion i law hefyd o bentrefi eraill. Cysylltodd yr 'Eco' ag Adran Gynllunio y Cyngor Sir gan mai hwy sy'n gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus o fewn y sir.

Daeth y newidiadau i fod ar Ebrill 9, wedi i Gwmni Crosville dynnu allan o'u teithiau Caernarfon-Llanrug-Llanberis, gan adael y gwasanaeth hwnnw bellach yn gyfangwbl yng ngofal Cwmni KMP. Does ryfedd felly, fod pobl Llanrug wedi gweld lleihad yn nifer y bysus sy'n teithio drwy'r pentref. Mae Cwmni Crosville yn parhau gyda'u gwasanaeth Caernarfon-Llanrug-Deiniolen-Dinorwig bob awr, ond nid yw'r daith hon bellach yn cynnwys Bethel.

PROBLEM BETHEL

Mae'r sefyllfa yno fymryn yn wahanol. Y gwasanaeth ar hyn o bryd yw Caernarfon-Bethel-Llanrug, yn gadael Caernarfon ar yr amseroedd canlynol: 8.00, 8.45 (ar Sadwrn a dyddiau gwyl yn unig) 9.45, 10.25, 11.45, 12.45, 1.45, 2.25, 3.45, 4.45 a 5.45. Mae dwy o'r siwrneiau hyn yn dilyn taith wahanol, ac yn parhau 'mlaen o Lanrug i'r Waunfawr drwy Dan y Coed a Cheunant. Y gwyn ym Methel yw fod y bysus sy'n teithio o Lanrug drwodd i Gaernarfon yn cyrraedd Bethel yn llawn, gan mai bysus mini ydynt. Mae Cwmni Crosville yn rhedeg y gwasanaeth hwn yn 'fasnachol': hynny yw, heb dderbyn cymorth ariannol gan y Cyngor Sir. Oherwydd hynny, nid oes hawl gan Adran Gynllunio y Cyngor Sir i ymyrryd yn y gwasanaeth na gorchymyn iddynt ddefnyddio bysus mwy o ran maint.

Yn wir, yn ôl a ddeallwn, mae gan unrhyw gwmni yr hawl i ddiddymu taith ar ôl rhoi 42 diwrnod o rybudd o'r bwriad i wneud hynny. Byddai'n rhaid i'r Cyngor Sir wedyn, hysbysebu'r gwasanaeth ar dendr — ac efallai, gynnig cymhorthdal i gwmni gynnal y gwasanaeth. Yn

yr un modd, os yw cwmni eisiau cychwyn gwasanaeth newydd, rhaid iddynt hwythau roi rhybudd o 42 diwrnod o'u bwriad o wneud hynny.

O'R FRO I FANGOR

Mae Cwmni Ieuan Williams, Deiniolen, yn cynnig gwasanaeth i Fangor i'r mwyaf i'r bentrefi Dyffryn Peris, ond unwaith eto, mae pentrefwyr Bethel yn cael eu hosgoi. Cwmni Crosville (taith rhif 50) sy'n cynnig yr unig wasanaeth drwy Fethel o Gaernarfon i Fangor. Mae'r bysus hyn yn gadael Caernarfon am 1.40 a 2.20 (dyddiau ysgol yn unig), ac yn gadael Bangor am 9.15 (dyddiau coleg yn unig), 9.40 a 5.40. Bws yw hwn a defnyddir i 'lenwi amser' oherwydd mai ei brif bwrpas yw cario myfyrwyr o Ben Llŷn i'r Coleg Technegol ym Mangor.

Yr unig wasanaeth arall sy'n cyrraedd Bethel yw taith yn cael ei chynnig gan Gwmni Padarn, Llanberis, sef rhif 47. Rhan ydyw o wasanaeth yn rhedeg o Fangor i'r Wern, Felinheli. Ar y Sadwrn yn unig, mae'r bws hwn yn cyrraedd Bethel am 9.25, ac yna ymlaen i Fangor. Dim ond un siwrnai y diwrnod a wna'r bws hwn o Fangor i Fethel, gan

gyrraedd y pentref am 6.35.

DATRYN PROBLEMAU BETHEL?

Mae'n ymddangos mai'r unig ateb i broblemau Bethel yw i'r trigolion ddwyn pwysau ar Gwmni Crosville i ddefnyddio bysus mwy ar daith rhif 82. Mae 'Eco'r Wyddfa' hefyd wedi cysylltu â Chwmni Padarn, Llanberis, ac mae posibilrwydd

y gall y cwmni hwn gynnig gwell gwasanaeth i'r pentref yn y dyfodol agos. Yn dilyn ymholiadau'r 'Eco', bu'r cwmni mewn cysylltiad ag Adran Gynllunio y Cyngor Sir i drafod y posibilrwydd o redeg taith rhif 47 yn amlach drwy Fethel. Maent hefyd yn cysidro gwasanaeth arbennig i redeg rhwng Caernarfon a Bethel.

LLANBERIS

Gohebwy: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn 870491

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am GRIW O BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar NOS IAU, MAI 31ain.

CLWB CANT YSGOL DOLBADARN: Enillwyr Mis Ebrill yw: 1, Alwena Jones (83) £25; 2, Iona Wyn Williams (103) £15; 3, Joan Huws (50) £10.

DIOLCH: Dymuna Jane a Danny, 20 Stryd Goodman, ddiolch i'w ffrindiau a'r teulu am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar eu Priodas Arian. SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fawrth 29.

Yn absenoldeb Mrs Hannah Jones llywyddwyd y cyfarfod gan yr Is-lywydd, Mrs Jan Davies.

Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol gan yr ysgrifenyddes.

Dymunwyd gwellad buan i Mrs Hannah Jones. Roedd yr aelodau yn falch iawn o weld Mrs Jan Davies yn ôl yn ein plith ar ôl ei hymwelriad â'r ysbyty.

Ein gwraig wadd oedd Mrs


Gwyneth Roberts, Becws Eryri, yn beirniadu Cystadleuaeth Goginio. Yr enillwyr oedd: Victoria Sandwich — 1, Mrs Eluned Mai Jones a Mrs Helen Morris. Scons — 1,

Mrs Eluned Mai Jones. Teisen Gri — 1, Mrs Dwywen Roberts. Teisen Afal — 1, Mrs Dwywen Roberts. Taffi — 1, Mrs A. M. Evans. Hufen ia Mintys Poethion — 1, Mrs Glenys Jones.

Diolchwyr i Mrs Roberts ac i'r gwestwagedd gan Mrs Jean Elis a Mrs Arvon Evans. Y gwestwagedd oedd Mrs Eluned Mai Jones a Mrs A. M. Evans. Enillwyd y raffl gan Mrs Jean Elis.

HEADWAY GWYNEDD: Casglwyd £247.20 mewn Bingo yng Ngwesty Dolbadarn ar Fawrth 16. Diolch i Bet, Carys a Wil am y trefniadau. Hefyd i Spar, Co-op, Gift Shop a'r Seren am yr anrhegion ac i bwb am gefnogi.

GŴYL GERDD DANT BANGOR A'R CYLCH 1990



Wyth mis sydd yna nes y daw Gŵyl Gerdd Dant Genedlaethol Cymru i Fangor ar 10 Tachwedd. Cynhelir hi yn Neuadd Prichard Jones, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, a disgwylir tua mil o gystadleuwyr o bob rhan o'r wlad. Ar wahân i Adran Cerdd Dant fe fydd yna wledd o Ganu Gwerin, Adrodd i Gyfeiliant, offerynnau cerdd, adran i'r Delyn a Thalwrn i Feirdd. I lwyfannu'r Wyl anelir at gronfa o £10,000 ac eisoes


mae llawer o weithgareddau wedi eu trefnu. Dowch i gefnogi a bod yn rhan o firi'r paratoi.

1 Mai: Cwllwm Clamai Canolfan Penrhosgarnedd am 7.00.

Timau o'r Felinheli, Talybont a Phenrhos yn cystadlu ar eitemau hwyliog gyda Maureen Rhys a John Ogwen yn feirniaid. Bydd yno baned a theisen gri.

Os carech chi gael mwy o wybodaeth am unrhyw agwedd o waith yr Wyl neu os carech chi gyfrannu'n ariannol, bydd pob cyfraniad yn cael ei gydnabod yn Rhaglen y Dydd, cysylltwch â'r ysgrifennydd: Rhiannon Evans, Nant yr Eira, Talycae, Tregarth.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

DALIER SYLWI TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am **GRIW O
BLYGWYR** i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

EISTEDDFOD BENTREF: Cynhelir Ffair Wanwyn, nos Wener, Mai 18 yn Neuadd yr Eglwys. Bydd yr elw tuag at yr Eisteddfod Bentref.

YSGOL FEITHRIN: Wedi tymor o gyfarfod yn Ffreutur Ysgol Tan-y-Coed, byddwn yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys ar ôl gwyliau'r Pasg er mwyn i'r plant gael cyfle i chwarae gyda'r teganau.

YN EISIAU: Athro/Athrawes i Ysgol Feithrin Penisarwaun i ddechrau ym mis Medi. Ceisiadau i: Alwena Leadbitter, Glyn Arthur, Penisarwaun. Ffôn 870453.

PONT: Cynhaliwyd noson o sleidiau yn Neuadd yr Eglwys ar Fawrth 24 hefo sylwebaeth gan Leslie Larsen. Roedd yn noson hynod ddiddorol gyda lluniau o'r 50au hyd at y presennol. Dysgodd pawb yn y gynulleidfa lawer am wahanol agweddau o'r ardal. Diolch yn fawr i Leslie.

Cynhelir **TWMPATH DAWNS** i'r pentref yng Ngwesty'r British ym Mangor, nos Wener, Mehefin 5 am 7.30 pm. Croeso cynnes i bawb. Pris £2.50 i oedolion, yn cynnwys bws. Plant — rhad ac am ddim. Ceir manylion a thocynnau gan Jim Woodcock — 870121

URDD BENTREF: Daeth tymor yr Urdd i ben gyda Disgo yn Neuadd yr Eglwys.

Llongyfarchwn Sioned Lewis am gael ail yn yr Eisteddfod Sir gyda Dawnsio Gwerin Unigol a dymunir pob llwyddiant iddi yn Eisteddfod Nantlle ac Arfon. Diolchir hefyd i'r caredigion fu'n hebrwng Vanessa, Tracey a Siân i ymarferion y Ddawns Flodau — gobeithio y gwnânt hwythau fwynhau eu hunain ar lwyfan yr Eisteddfod.

Llongyfarchiadau hefyd i Christopher Turner a ddaeth yn drydydd mewn cystadleuaeth Celf a Chrefft i rai o 8 i 10 oed. Gobeithio y gwnaiff pawb fwynhau eu hunain yn Eisteddfod Nantlle ac Arfon, yng Nglynllifon. **APÊL URDD NANTLLE AC ARFON:** Nos Iau, Mawrth 29 cafwyd noson arbennig o dda yn Neuadd yr Eglwys gyda eitemau gan Aelodau'r Urdd. Gwmnaed elw o

dros £300 (yn cynnwys y Raffl Fawr). Diolchir i bawb a gyfrannodd at llwyddiant y noson. Rydym bron a chyrraedd y targed rwan.

Y mae pwyllgor Llety a Chroeso angen lletya plant o hyd — os oes lle gennych, cysylltwch ag Amranwen Lynch neu Ann Ifans.

LLONGYFARCHIADAU: Pob dymuniad da i Berwyn Paterson ar achlysur ei benblwydd yn 18 oed ar Ebrill 15 — a phob llwyddiant i'r dyfodol.

GAIR O DDIOLCH: Dymuna Marian a Gareth Griffiths, Cae Corniog gynt, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar enedigaeth eu merch fach Catrin Elin. Yr un modd, dymuna Berwyn Paterson ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar gyrraedd ei 18 oed.

YSGOL SUL BOSRA: Bydd y plant yn cymryd rhan mewn dwy gymanfa eto eleni — **BNAWN SUL**, Ebrill 22 yng nghapel Ebeneser, Deiniolen, a **NOS SUL**, Ebrill 29 yn Ebeneser, Caernarfon. Trefnir bws i'r ddwy gymanfa.

Ar y cyd ag aelodau Ysgol Sul Santes Helen, mwynhaodd rhai o'r aelodau gemau pêl droed a phêl rwyd yn erbyn timau ysgolion Sul

Arfon a'r Cylch. Fe fwynhaodd pawb eu hunain a diolchir i'r rhai fu'n hyfforddi a chludo'r plant i Fangor.

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Elen Williams, Bryntirion, ar golli ei chwaer yn ddiweddar. Ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Gladys Thomas, Tai Newyddion.

GWELLHAD: Rydym yn falch o weld Eryl Jones, Bryntirion gynt, wedi gwella ar ôl cyfnod maith yn yr Ysbyty. Gobeithio fod y tywydd teg yn gwneud i bawb sy'n teimlo'n sâl, deimlo'n well. Brysiwch wella i gyd.

PWYLLGOR NEUADD: Cynhelir Noson Gymdeithasol i'r pentref nos Wener, Ebrill 27 yng Ngwesty'r Fictoria. Bydd y bws yn cychwyn am 7.30 pm. Pris y bwyd: Cyw Iâr, Scampi — £3.50; Plant — Selsig a Sglodion — £2.50. Croeso cynnes i BAWB. Tynnir Clwb Cant Ebrill.

Tynnwyd Clwb Cant Mawrth, yn Neuadd yr Eglwys, Nos Iau, Mawrth 29. Yr enillwyr oedd: 1, Huw Williams, Tan y Ffordd; 2, Rhian Williams, Cae'r Bythod; 3, Gwilym Jones, Groeslon.

YSGOL TAN Y COED: Llongyfarchiadau calonnog i William Lewis, Safon 4, ar gael ei ddewis yn un o brif gymeriadau Pasiant y Plant, a gynhelir yn Eisteddfod Nantlle ac Arfon, nos Iau a Nos Wener, yn y Pafiliwn.

Fe dreuliodd safon 1 a 2 bawn bythgofiadwy yng nghwmni Iwan Edgar a'u tywysodd o amgylch stiwdio Barcud. Diolchir am y croeso a gobeithio fod Iwan wedi derbyn ei gardiau a'i lythrau

Diolch.

Ac yn goron ar y cywaith 'Trychfil y Trydan', daeth John Howard Hughes, o MANWEB i sgwrsio hefo'r plant. Fe ddysgodd y plant a'r athrawon dipyn am rinweddau a pheryglon trydan. Bu 'Yncl John' yn siarad a sgwrsio drwy'r pnawn a'r plant wrth eu bodd yn gwrandao arno. Fe gafodd yr Ysgol i gyd weld Fideo am beryglon Trydan a chael posteri lliwgar i fynd adref. Diolch i Mr Hughes am bnawn hynod o ddifyr. **POB LWC:** Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sefyll arholiadau yn ystod y misoedd nesaf, chwi fyfyrwyr a disgyblion lefel A a TGAU — 'Gorau arf, arf dysg' **CLWB YR HEULWEN:** Cynhaliwyd cyfarfod dydd Mawrth, Ebrill 17. Oherwydd y tywydd, nid oedd llawer yn bresennol, felly fe ohiriwyd y cyfarfod Blynnyddol tan y tro nesaf, sef Mai 15.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Charlotte Dickens, Tai Ffynnon, Mrs Ifon Green, Y Berth, Mr Nathan Jones, Bryn Hyfryd, Mr Ron Hughes, Bryn Hyfryd, Mrs K. Williams, 8 Llys y Gwynt, Mrs M. J. Roberts, 5 Llys y Gwynt, Mrs E. J. Williams, 2 Bryntirion, a Mrs Nansi Jones, Meillionydd.

Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs O. Thomas, 3 Tai Newyddion. Llongyfarchwyd Mr a Mrs G. Davies, Waen Rhyddallt, ar eu Priodas Diemwnt a llongyfarchwyd Berwyn Paterson ar ei benblwydd yn 18 oed. Rhoddwyd y te gan Mrs G. Jones a Mrs N. Evans, Bryntirion. Diolchodd Mrs P. Williams am y te. Enillwyd y Raffl gan Mrs Eluned Porter.



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

ADNABOD Y CHWARELWYR

Annwyl Olygydd,
Yn rhifyn Ebrill o'r Eco, o dan golofn newyddion Penisarwaen, holwch a oedd rhywun yn adnabod rhai o'r chwarelwyr yn y llun ddanghoswyd.

Un yn unig allaf ei adnabod, sef fy mrawd, y diweddar Morgan John Hughes, gynt o Alexandra House, Cwmyglo. Mae yn y canol yn eistedd ar olwyn y tractor.

Yr eiddoch
LLEW HUGHES,
Cwm-y-Glo.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Anfonodd Ellis Wyn Williams, Ffordd Deiniol, Deiniolen y rhestr hon i ni o enwau'r rhai oedd yn y llun o'r chwarelwyr a ymddangosodd yn rhifyn mis Ebrill o'r Eco.

O'r chwith i'r dde: Thomas Jones (Hen Lon, Deiniolen); Lesley Lambert (Deiniolen); Dafydd Jones (Parc); Hayden Holland (Llanberis); William Jones (Gardda, Nant); Ellis Wyn (Deiniolen); Albert (Caeathro); Morgan John (Cwm y Glo); Thomas Jones (Cymro)(Brynrefail); Thomas Roberts (Deiniolen).

DANGOS DIOLCH 'BONHEDDWR, MEDDYG A CHYFAILL'

Yn gynharach y mis hwn, llanwyd Neuadd Ysgol Brynrefail gan drigolion y fro. Roeddynt yno i dalu teyrnged i'r Dr Dan Rowland Hughes am wasanaeth o 33 o flynyddoedd i deuluoedd yr ardal. Wrth annerch y gynulleidfa, dywedodd y Cynghorydd Francis Jones ei fod 'yn falch eithriadol o weld cymaint wedi troi i mewn: mae'n adlewyrchu'r parch sydd gennym i foneddwr o ddyn.' Aeth ymlaen i hyderu y byddai'r noson 'wedi cyfleu, nid yn unig y siom o golli meddyg teulu, ond hefyd y gwerthfawrogiad a'r diolch diffuant am flynyddoedd o wasanaeth clodwiw i deuluoedd y dyffryn.'

Trefnwyd y noson gan bwyllgor o wahanol bentrefi'r fro a sefydlwyd yn gynnar ym mis Ionawr. Roedd hyn mewn ymateb i'r holi yng ngwahanol glinigau'r fro ynglŷn â chyfrannu tuag at dysteb i'r meddyg. Ond doedd gwaith y trefnwyr ddim yn hawdd. A defnyddio geiriau'r Dr Hughes ei hun: 'dwi ddim eisiau fuss!'

Yn diddori'r gynulleidfa ar y noson roedd Hogia'r Wyddfa, Sian Gibson a Clychau'r Grug. Talwyd teyrngedau i'r meddyg gan Dr O. P. Jones (ar ran y meddygon a staff y clinigau), Mr Cledwyn Williams (Llanrug, Tan y Coed a Cheunant), Mr Llew Hughes (Cwm y Glo), Y Cynghorydd Pat Larsen (Brynrefail a Phenisarwaun), Mr John Emlyn Hughes (Deiniolen a Dinorwig), Mr Geraint Ellis (Bethel a Rhiwlas) a Mr Cledwyn P. Jones (Llanberis a Nant Peris). Arweinydd y noson oedd Arwel Jones.

Y Cynghorydd Francis Jones a gyflwynodd y dysteb a'r rhoddion i Dr a Mrs Hughes. Cyhoeddwn yma y deyrnged a roddwyd ganddo i'r meddyg ar y noson.

'Noson o Deyrnged, lle mae cynulleidfa o drigolion y fro am dddangos eu diolchgarwch i Feddyg a chyfaill a roddodd 33 mlynedd o wasanaeth ffyddlon i'r ardal.

Siom oedd clywed eich bod yn ymddeol. Yr ydych bellach wedi gorffen yn swyddogol, wedi cynnal eich 'surgery' olaf yn Neiniolen, ac yn rhyfedd iawn, rwy'n deall mai yno y cawsoch eich 'surgery' cyntaf pan ddaethoch atom yn 1957.

Roeddwn yn hoffi beth ddywedodd ar y ffôn wrthyf pan ofynnais iddo sut oedd y bywyd newydd yn mynd i lawr. Ei ateb: 'GREAT! Mi godais y bore yma a rhoi y ci allan — a mynd yn ôl i fy ngwely.' Dipyn o wahaniaeth ynte i fywyd prysur meddyg teulu.

Dr Hughes yr ydych yn haeddu seibiant, a chyfle i fwynhau y pethau nad oedd ond medwl amdanynt yn bosibl o'r blaen. Dyma ein dymuniad ichwi heno: llawer blwyddyn hapus i wneud fel y mynnwch. Bydd croeso pob amser ichwi cofiwch yng nghartrefi yr ardal.

Mae Dr Dan Rowland



Y Cynghorydd Francis Jones yn cyflwyno Dr Dan Hughes â hambwrdd arian.

Hughes wedi bod gyda ni am gyfnod o 33 mlynedd.

Bachgen o Deiniolen — ei dad yn Fferyllwydd yn y pentref hwnnw am flynyddoedd lawer. Mae gan Dr Hughes feddwl mawr o'r ardal lle'i ganwyd a'i magwyd, a does dim rhyfedd iddo ddod yn ôl i'w hen gynefin pan ddaeth y cyfle. Clywsom ei ddweud lawer tro nad oes anrhydedd i broffwyd yn ei wlad ei hun! Ond yn groes i hynny, mae'r blynyddoedd wedi profi, ac mi dystiwn heno, fod anrhydedd, fod parch, a bod cariad tuag at ein cyfaill hoff.

Roeddem yn yr hen Ysgol Brynrefail gyda'n gilydd — amser hapus dros ben. Roedd Dan yn rhedwr heb ei ail a pharhaodd ei amser am y ras 100 llath yn record di-guro am flynyddoedd lawer. Enillodd bencampwriaeth yr ysgol yn ei gyfnod a'r Gwpan Victor Ludorum.

Wedi cyfnod ysgol aeth i Gaerdydd i'w hyfforddi fel meddyg ac wedi llwyddo yn ei arholiadau, ymunodd â'r Llu Awyr lle y bu'n feddyg am ddwy flynedd. Daeth yn ôl i'r De eto, i Lanelli, ac yna symud i'r hen Sir Benfro lle y bu'n gwasanaethu am tua dwy flynedd.

Clywodd un diwrnod fod angen partner ar yr hen gyfaill hoff, y diweddar Dr Vyrnwy Jones. Wedi cyfweiliad i fyny yma yn Llanberis, dechreuodd ar ei ddyletswyddau yn Hydref 1957.

Does dim amheuaeth na welodd yr hen Ddoctor craff y byddai Dan yn gaffaeliad mawr iddo ef yn sicr, ond hefyd y byddai'r ardal ar ei hennill yn ei apwyntiad. Mae'r blynyddoedd wedi ei brofi yn iawn. Buan iawn y sefydlodd yma yn ein mysg, a gwelsom yn syth ei fod yn gymeriad hynaws a

boneddigaidd, ymroddgar a pharod ei gymwynas.

Bachgen wedi ei eni a'i fagu yn ardal y chwareli ac wedi gweld fel ninnau effaith y clwy melltigedig llwch yr ysgyfaint, yn dihoeni a lladd dynion cryf. Dim rhyfedd iddo roi ei holl egni yn y maes yma. Mae gweddwon a theuluoedd yr ardal yn medru tystio heno iddo fod yn gefn iddynt yn eu cyfyngder. Roedd yn arloesi gyda Mr Idwal Edwards, ysgrifennydd Undeb y TGW yng Ngogledd Cymru a Syr Elwyn Jones ac eraill. Dywedodd Mr Edwards wrthyf fod ganddo barch mawr i'r Dr Hughes a'i fod yn ddyledus iddo am ei waith diflino ar ran y teuluoedd hyn.

Does dim amheuaeth fod ymdrechion y gwŷr yma dros flynyddoedd lawer wedi bod yn fodd i'r salwch hwn gael ei gydnabod yn afiechyd diwydiannol, ac fe liniarwyd problemau llawer o weddwon a theuluoedd ein pentrefi.

Rydym yn diolch o waelod calon ichwi am eich ymroddiad, eich dyfalbarhad a'ch consern â'r afiechyd dieflig yma.

Gwnaeth gymwynas arall a ni pan ddaeth yn ôl i'n plith. Daeth â geneth landeg o Sir Aberteifi — ei wraig Kathleen i ymgartrefu yn yr ardal. Gwraig o gymeriad hoffus a boneddigaidd. Ganwyd dau fachgen a merch iddynt ac ymfalchiwn yn eu llwyddiant. Rwy'n gwybod fod gan y Dr Hughes a Mrs Hughes feddwl mawr ohonynt a'u wyrion bach.

Pwy ŵyr beth fyddai hynt a helynt Dr Hughes onibai fod Kathleen wedi bod yn gefn iddo ar hyd y daith? Diolch, Mrs Hughes, mae ein dyled yn fawr i chwithau.

Bu eich ymateb fel trigolion i'r dysteb yn un anrhydeddus a diolchaf i chwi am eich parodrwydd i ddangos eich diolchgarwch. Mae'n ffrainc ac anrhydedd i mi gael cyflwyno Dr Hughes â'r dysteb hon ar eich

rhan, yn arwydd o'r parch, diolch a'r dymuniadau da i'r dyfodol. Duw a'ch bedithio fel teulu.'

Dyma'r arysgrif ar yr hambwrdd: 'Rhodd i'r Dr Dan Rowland Hughes gan drigolion y fro ar ei ymddeoliad Mawrth 1990 mewn gwerthfawrogiad o'i wasanaeth ffyddlon dros 33 mlynedd.'

Teyrnged deilwng i Foneddwr, Meddyg a Chyfaill.



Mr John Emlyn Hughes yn cyflwyno llun o ran uchaf Chwarel Dinorwig i Dr Dan Hughes, ar ran y C.E.G.B. fel arwydd o werthfawrogiad o'i waith dros gyfnod adeiladu gorsaf Dinorwig.

Aelodau'r Pwyllgor a fu'n trefnu'r Dysteb a'r Noson Deyrnged oedd: Cadeirydd: Mr Cledwyn P. Jones, Llanberis; Ysgrifennydd: Cynghorydd Francis Jones; Trysorydd: Mr Eurwyn Jones, Llanberis; Cynrychiolwyr Pentrefi — Llanrug: Mr Cledwyn Williams a Mr Dafydd Wh. Thomas; Cwmyglo: Mrs Margaret Williams a Mr Maldwyn Hughes; Brynrefail: Ms Lowri Prys Roberts a Mrs Pat Jones; Penisarwaun: Cynghorydd Pat Larsen a Mr Arwel Jones; Deiniolen: Cynghorydd Jacob James a Mr Alun Wyn Evans; Dinorwig: Mrs Betty Roberts; Bethel: Mrs Lynwen Morris a Mrs Ellen Ellis; Tan y Coed/Ceunant: Mrs Dora Roberts; Llanberis: Y Swyddogion a Mrs Mair Roberts; Nant Peris: Mrs Prydwen Pritchard a Mr Tom Pritchard.

GAIR O DDIOLCH

Dymuna Dr a Mrs Dan Hughes ddiolch o galon i bawb am y croeso arbennig a gawsant nos lau yn Ysgol Brynrefail, ac hefyd am y rhoddion gwych a'r holl gardiau o ddymuniadau da.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am GRIW O
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

YSGOL SUL CAPEL MAWR: Llongyfarchiadau i'r timau pelrwyd a pheldroed a wnaeth yn dda iawn yng nghystadleuthau chwaraeon y Cyngor Ysgolion Sul ym mis Mawrth. Roedd digon o frwdfrydedd ymysg aelodau'r Ysgol Sul i gael 2 dîm peldroed 5 bob ochr o dan 11 oed, ac eilyddion.

Chwaraeodd y ddau dîm yn dda gydag un tîm yn mynd ymlaen i un o'r rowndiau cyn-derfynol.

Aeth y tîm pelrwyd dan bedair ar ddeg i'r rownd cyn-derfynol a cholli yno i'r tîm a enillodd y gystadleuaeth. Enillodd y genethod o dan 12 oed eu cystadleuaeth hwy a chwasant fedal bob un a thlws hardd i gofio'r achlysur.

Carem ddiolch i Mr Dafydd Arfon Jones am ei gymorth hefo'r timau peldroed ac i'r rhieni am eu parodrwydd i gludo'r plant yn ôl ac ymlaen o'r cystadleuthau.

Bydd y trip Ysgol Sul yn mynd i Butlins eto eleni (llai o bobl, mwy i'w wneud meddai'r hysbyseb!) ar y 7fed o Orffennaf. £3 yw pris y tocynnau i oedolion a phlant, archebwch gan yr athrawon erbyn Mai 20 os gwelwch yn dda. Cynhelir y gymanfa yng Nghapel Engedi, Caernarfon, ar Fai 6 am 1.30 pm. Bydd bws i'r gymanfa yn gadael Capel Mawr am 1 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU i Michelle Louise Roberts am lwyddo gyda anrhydedd yn ei arholiad piano. Mae hi yn ddisgybl i Mrs Heulwen Williams, Bethel.

DIOLCH: Dymuna Eluned Parry, 17 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd pan oedd yn Ysbyty Gwynedd a'r Eryri yn ddiweddar.

CLWB IEUENCTID: Mae'r Clwb yn awr wedi cau dros yr haf — bydd yn ail agor ym mis Medi. Cawsom fis Mawrth prysur gyda aelod o'r Clwb, Sophie Evans, yn mynd ymlaen i gystadlaethau Cymru yn Bwlth Wells gyda Dawnsio Disco — dymunwn bob llwyddiant iddi.

Cawsom noson ddifyr iawn yn sgîo yn Llandudno ar ddechrau'r mis.

Bu llawer o'r aelodau yn Alton Towers ar Ebrill 1.



Rhian Green a ddaeth yn gyntaf ar yr unawd piano, ac a fydd yn cynrychioli Ysgol Gynradd Llanrug yng Nghlynllifon.

RHODDION

Gyda diolch i'r canlynol am eu cyfraniad i gronfa'r 'Eco'.

£10: Di-enw; Mr a Mrs R. Wynne, Craig y Môr, Llanfairfechan (gynt o Gelliod, Tan y Coed).

£6: Mr McCarthy, Lerpwl.

£5: Mrs Jones Evans, 39 Bro Rhythallt, Llanrug.

£5: Eurwyn a Carys Evans, Carwyn, Bryngwyn, Llanrug.

£5: Er cof am dad a mam, sef William Thomas a Mary Jones, Clwt y Bont. 'Ym mynwes Iesu cânt le i huno'. — Eu merch, Dorothy May, 17 Lôn-y-Bryn, Caernarfon.

£4: Mrs J. Williams, Morfa Bychan; Mr P. W. Williams, Corby; Mr a Mrs Owen Jones, Llangefni; Di-enw; Mrs Meurig Owen, Llundain; Mrs Sidebotham, Stockport.

£3: N. Jones, Hirfron, Llanberis.

£2: Mr a Mrs J. E. Williams, Bishop Auckland; Miss M. Griffith, Caerhun; Mrs M. Edwards, Stone, Staffs. Jane a Danny, 20 Stryd Goodman, Llanberis. Mrs Ray Hughes, Manchester House, Waunfawr.



Parti Dawnsio Gwerin Ysgol Gynradd Llanrug a oedd yn fuddugol yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Pob hwyl iddynt yng Nglynllifon.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am GRIW O
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

LLONGYFARCHIADAU i Cynrig Baxter, Pant Hyfryd ar ei lwyddiant yn yr arholiad sydd yn cyfateb i Lefel 'A' yn Awstralia. Bydd Cynrig yn astudio coedwigaeth ym Mhrifysgol Caeredin neu yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru,

Bangor, ym mis Medi. Pob lwc i'r dyfodol.

GWELLHAD: Da gennym glywed fod Mrs Pritchard, Glasfryn, yn gwella ar ôl ei arhosiad diweddar yn Ysbyty Gwynedd.



YSTORFA MINFFORDD STORES
GAEATHRO
GAERNARFON
YR HEN BOST 1887-1987
AR TYRPEG 1817-1886

Nwyddau Groser
Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

5754

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Arwel Roberts

3 Erw Wen,

CAEATHRO

673014



**GLANHAWR
SIMNE**

Os yw'r llwch yn y simne
Yn drwch uwch y tân
Down atoch â phleser
I'w sgubo yn lân

DIM GWELLHAD O'R 'FRECH DDU'

Ar ddiwedd erthygl y mis diwethaf, holwyd pam fod cynifer o geisiadau yn cael eu caniatáu i godi tai ar dir na chafodd ei neilltuo ar gyfer hynny. Mae'n ymddangos mai mympwy personol cynghorwyr sy'n rhannol-gyfrifol am hynny yn hytrach na barn wedi ei seilio ar ddadansoddiad ystyrion o'r cais cynllunio yng nghydestun y gwahaniaethau sy'n rheoli datblygu.

Yn wir mae Prif Swyddog Cynllunio Cyngor Arfon — Dafydd Hughes — yn pryderu am agwedd y Cyngor: 'Rwy'n credu bod agwedd y Cyngor tuag at ganiataau codi tai yng nghefn gwlad yn anghyson a dweud y lleiaf.'

Yr anghysondeb hwn sy'n peri pryder hefyd i etholwyr Arfon. Cadarnhawyd hyn gan y Prif Swyddog Cynllunio a ddywed fod 'cynnydd yn y diddordeb mewn materion cynllunio yn gyffredinol, ac mewn tai a materion cysylltiedig yn benodol. Mae hyn yn pwysleisio mor bwysig ydyw i'r Cyngor gael ei weld yn gweithredu mewn modd cyfrifol a chysion o ran dilyn ei bolisiau a rhoi sylw priodol i oblygiadau gwyrdd oddi wrth y polisiau hynny.'

I geisio gwella'r anghysondeb hwn, mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 6 Rhagfyr 1989, argymhellodd y Prif Swyddog Cynllunio i'r Cyngor arddel polisi arbennig wrth ymdrin a cheisiadau am godi tai annedd yn groes i'r Cynlluniau Lleol. Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio arddel y polisi hwnnw, ac mewn cyfarfod llawn o Gyngor Bwrdeistref Arfon ar 19 Mawrth 1990, cadarnhawyd y polisi ychwanegol. Dyma'r polisi yn llawn:

'Bod y Cyngor yn arddel y polisi a ganlyn wrth ymdrin a cheisiadau am godi tai annedd yn groes i'r polisi:

(a) dylid anfon at bob ymgeisydd am ganiatad o'r fath, gopi o bolisiau y Cyngor parthed codi tai annedd y tu allan i ffiniau pentrefol.

(b) dylid gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno datganiad yn amlinellu'r ystyriaethau hynny sydd, yn ei barn hi/ef, yn cyflawnhau gofyn i'r Cyngor wyro oddi wrth ei bolisi wrth ymdrin a'r cais hwnnw. Oni dderbynir datganiad o'r fath cyn pen cyfnod o 14 diwrnod yna fe dybir nad oes gan yr ymgeisydd sylwadau i'w cyflwyno.

(c) dylid cynnwys datganiad yr ymgeisydd/ymgeiswyr gyda'r rhaglen o geisiadau cynllunio, ynghyd ag ymateb y Prif Swyddog Cynllunio.

(ch) os bydd i'r Cyngor benderfynu gwroddi wrth y polisi yna dylid nodi yn y cofnodion y rhesymau dros wneud hynny, a'u cynnwys yn yr hysbyseb yn y wasg.'

Roedd y Pwyllgor Cynllunio a

gyferfu ar 4 Ebrill eleni yn arbennig o ddiddorol oherwydd fod y polisi a ddyfynnir uchod mewn grym. Mae'r polisi ychwanegol hwn yn arwyddocaol am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae'n rhoi'r cyfle i ymgeisydd ddatgan ar sail cynllunio, pam y dylid gwroddi wrth bolisiau'r Cyngor. Yn ail, mae'n rhoi cyfle i'r Prif Swyddog Cynllunio ymateb yn ysgrifenedig i'r sylwadau rheini, eto, ar sail cynllunio. Ac yn drydydd, mae'n gosod cyfrifoldeb cyhoeddus ar ysgwyddau aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i gofnodi rhesymau dilys pam y dylid gwroddi wrth bolisi os ydynt o'r farn y dylid cymeradwyo'r cais.

Roedd nifer o geisiadau cynllunio am godi tai annedd yn groes i'r polisi yn cael eu hystyried yn y cyfarfod ar Ebrill 4 — pob un o fro'r 'Eco' yng nghymuned Llanddeiniolen (yr ardal ble mae'r 'Frech Ddu' ar ei gwaethaf). Dyma restr ohonynt gyda'r sylwadau perthnasol:

1. Cais am godi bynglo ar dir Glasgoed, Penisarwaun.

Roedd y cais yn groes i'r polisi oherwydd:

(a) nad oedd angen am ddydd newydd yng nghefn gwlad,

(b) nad oedd y cais yn gysylltiedig a gweithiwr mewn amaethyddiaeth na choedwigaeth,

(c) nad oedd o fewn ffiniau pentrefol,

(ch) fod digon o dir eisoes yn yr ardal wedi ei glustnodi ar gyfer datblygu,

(d) y byddai'n gosod cynsail dialw-amdano i ddatblygiadau preswyl eraill o'r tu allan i'r pentrefi cydnabyddedig.

Oherwydd hyn, argymhelliad y Swyddogion Cynllunio oedd gwrthod y cais.

Pleidleiswyd yn unfrydol i ganiatau'r datblygiad.

2. Cais am godi bynglo ar dir Pen y Golwg, Deiniolen.

Roedd y cais yn groes i'r polisi oherwydd:

a, b, c, ch, a d uchod,

(dd) y byddai'n golygu creu amgylchiadau a fyddai'n niweidiol i ddiogelwch y ffyrdd, (e) y byddai'n golygu datblygiad a fyddai'n niweidiol i fwynderau gweledol yr ardal.

Oherwydd hyn, argymhelliad y Swyddogion Cynllunio oedd gwrthod y cais. Penderfynwyd fod Is-Bwyllgor Rheoli Datblygu y Cyngor i ymweld â'r safle ac

adrodd yn ôl gyda'u argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio nesaf.

3. Cais am ddatblygiad ar dir ger 'Rhos', Bethel.

Roedd y cais yn groes i'r polisi ar sail a, b, c, ch, d, dd, ac e.

Gwrthodwyd y cais.

4. Cais am godi bynglo ar dir ger Pant Hywel, Penisarwaun.

Roedd y cais yn groes i'r polisi oherwydd a, b, c, ch, d, ac dd.

Argymhelliad y Swyddogion Cynllunio oedd gwrthod y cais.

Penderfynwyd fod yr Is-bwyllgor Rheoli Datblygu yn ymweld â'r safle, ac yn adrodd yn ôl gyda'u argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio nesaf.

Gwelir fod pob un o'r ceisiadau uchod yn groes i bolisiau cynllunio'r Cyngor ar o leiaf bump safbwynt.

Nid oedd rhai o'r ymgeiswyr wedi cyflwyno datganiad i gyflawnhau gofyn i'r Cyngor wyro oddi wrth ei bolisi. Roedd sylwadau ymgeiswyr eraill heb unrhyw sail cynllunio iddynt.

Roedd y diffyg datganiad gan rai ymgeiswyr, a'r sylwadau amherthnasol gan eraill, yn cryfhau safbwynt y swyddogion a oedd yn argymhell gwrthod y pedwar cais. Eto'i gyd, un yn unig a wrthodwyd. Bydd penderfyniad ar y ddau arall yn cael ei wneud ym Mhwyllgor Cynllunio nesaf y Cyngor ddechrau fis Mai.

Yn ystod trafodaethau ar faterion cynllunio yng nghyfarfod Ebrill, dywedodd un Cynghorydd o fro'r 'Eco' mai ymgeiswyr lleol ddylai gael ystyriaeth bob tro wrth drafod ceisiadau. Mae gan yr 'Eco' yr hawl i enwi yr ymgeiswyr yn y pedwar achos uchod, ond nid pwy yw'r ymgeiswyr ddylai gael ystyriaeth ond beth yw'r cais. Y mae'n amlwg oddi wrth sylwadau rhai cynghorwyr mai 'pwy yw'r ymgeisydd?' sy'n cael ystyriaeth ganddynt, ac nid 'a yw'r cais yn un i'w gymeradwyo neu'i wrthod?'. Ac y mae oblygiadau'r fath safbwynt yn ddifrifol iawn.

HOLIADUR YR 'ECO'

Rhowch ✓ gyferbyn â'r ateb cymwys.

	Oes	Nac
1. Oes copi o'r 'Eco' o'ch blaen ar hyn o bryd?	☐	☐
2. Oes rhywun yn danfon yr 'Eco' i'ch drws bob mis?	☐	☐
3. Oes newyddion o'ch pentref chwi yn yr 'Eco'?	☐	☐
4. Oes lluniau o wahanol ddiwgwyddiadau'r fro yn yr 'Eco'?	☐	☐
5. Oes yna ddyddiadur misol yn yr 'Eco'?	☐	☐
6. Oes tudalen arbennig i'r plant yn yr 'Eco'?	☐	☐
7. Oes storïau ac erthyglau rheolaidd yn yr 'Eco'?	☐	☐
8. Oes tudalen arbennig i chwaraeon yn yr 'Eco'?	☐	☐
9. Oes yna lawer o fusnesau lleol yn hysbysebu'n yr 'Eco'?	☐	☐
10. Oes arnoch awydd derbyn yr 'Eco' yn rheolaidd am y flwyddyn nesaf?	☐	☐

Os oedd mwyafrif eich atebion yn **NAC OES**, yna nid ydych **ERIOED** wedi darllen *Eco*'r Wyddfa!

Os yw mwyafrif eich atebion yn **OES**:

1. Mae **RHYWUN** wedi gwirfoddoli i blygu'r papur y mis hwn.
2. Mae **RHYWUN** yn gyfrifol am ddosbarthu'r 'Eco' yn eich stryd.
3. Mae **RHYWUN** yn ohebydd i'r 'Eco' yn eich pentref.
4. Mae **RHYWUN** wedi tynnu'r lluniau a'u datgelu.
5. Mae **RHYWUN** wedi casglu'r wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau.
6. Mae **RHYWUN** yn gyfrifol am ddiddori'r plant.
7. Mae **RHYWUN** wedi sgwennu'r storïau a'r erthyglau.
8. Mae **RHYWUN** wedi didoli'r newyddion am wahanol chwaraeon.
9. Mae **RHYWUN** yn gyfrifol am gasglu'r holl hysbysebion.

Os yw eich ateb i Gwestiwn 10 yn **OES**, yna ydych chi'n fodlon **BOD YN RHYWUN?** Dowch i gyfarfod blynyddol yr 'Eco' a chynnig eich help.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

DALIER SYLWI TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am **GRIW O**
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

YSGOL GWAUN GYNFI: Ar Fawrth 24 bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Neuadd P.J. Bangor. Dyma'r canlyniadau:
Unawd dan 8 oed: 2, Elfed Morris.
Unawd 10-12 oed: 2, Lyndsey V. Parry. Cerdd Dant 10-12 oed: 1, Lyndsey V. Parry. Unawd Pres dan 12 oed: 2, Sian Elen Thomas. Côr Grŵp 3: ail.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu a phob lwc i Lyndsey yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwedd mis Mai.

Bu cystadlu brwd yn adran y gwaith cartref hefyd. Dyma'r canlyniadau yn yr adran Dylunio a Chrefft — Eisteddfod Cylch Arfon: Collage dan 12 oed: 1, Bethan Griffith. Tecstilau dan 10 oed: 3, Rhiannon Longley. Gwau a Chrosio dan 8 oed: 1, Ceri Olwen Hughes. Gwau a Chrosio dan 10 oed: 1, Alaw Mari Hughes. Gwau a Chrosio dan 12 oed: 2, Lyndsey V. Parry; Sian Elen Thomas (teilwng). Ffotograffiaeth dan 8 oed: 1, Urien Sion.

Dylunio a Chrefft Eisteddfod Sir Eryri: Gwau a Chrosio dan 8 oed: 1, Ceri Olwen Hughes. Gwau a Chrosio dan 10 oed: 1, Alaw Mari Hughes. Gwau a Chrosio dan 12 oed: 2, Lyndsey V. Parry.

LLONGYFARCHIADAU: Mae'n bleser gennym longyfarch Stephen Hughes, ŵyr Mrs Annie Parry, Llanrug, a'r diweddar Percy Parry (Bron Graig, Gallt-y-Foel gynt) ar ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Disgybl yn Ysgol Bodedern yw Stephen ac mae'n bwriadu mynd i Aberystwyth yn yr Hydref i astudio Mathemateg, a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol. CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod o'r Clwb ar Fawrth 27 pryd y treuliodd y prynhawn yn chwarae gemau. Gwesteion y te oedd Mrs Pat Evans, Mrs Edna Coles a Mrs Dolly Brown. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Pat Evans ac fe'i henillwyd gan Mrs Katie Griffiths. Llongyfarchwyd Mrs Aileen M.

Jones ar fod yn nain unwaith yn rhagor.

Ar Ebrill 10 cynhaliwyd oedfa i ddathlu'r Pasg. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrhythur gan Mrs Eirlys Ll. Jones, Mrs Alwen Jones, Mrs Jane Jones, Mrs Jennie E. Williams, Mrs Dolly Brown a Mrs Edna Coles. Arweiniwyd ni mewn gweddi gan Mrs Megan P. Morris. Rhoddwyd yr emynau alan gan Mrs Betty W. Davies a Miss Eileen Williams ac fe offrymwyd y fendith gan Mrs Ellen Williams.

Gwesteion y te oedd Mrs Grace Williams, Mrs Sally Lewis a Miss Jean Moeller. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Grace Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs Edna Coles.

Anfonwyd cyfarchion y Clwb i Mrs Mary Thomas sydd ar y pryd yn y Cartref ym Mhenisarwaun, ac i Mrs Maggie Jones sydd yn yr Ysbyty. Yr oedd yr aelodau i gyd yn ddiolchgar dros ben i Di-enw o Ddeiniolen am yr anrheg gwerthfawr o Decell Trydan at wasanaeth y Clwb.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan ar Ebrill 2 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams y Llywydd. Darlennodd Mrs Williams y llythyr misol a thrafodwyd materion ynglyn â'r sefydliad.

Llongyfarchwyd Miss Jean Moeller a Miss Marian Williams am ddod yn gydradd gyntaf gyda gêm Scrabble — byddant yn mynd ymlaen i'r ail gêm sydd i'w chynnal yng Nghaernarfon yn ystod y misoedd nesaf.

Croesawyd aelod newydd sef Mrs Jean Diane Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 1 pan fydd Mrs Eira Cracombe y VCO yn ein hannerch.

PLAID CYMRU: Nos Fawrth, Ebrill 2, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus arbennig o lwyddiannus o dan nawdd y gangen leol yn y Ganolfan. Testun y noson oedd 'Y Dreth Gymunedol' a'r siaradwr gwadd oedd Mr J. Dryhurst Roberts, Trysorydd Cyngor Bwrdeistref

Arfon. Tystiodd y cynulliad da a oedd yn bresennol (mymryn tan 100) y pryder sy'n bodoli yn yr ardal ynglŷn â'r dreth newydd hon a chafwyd trafodaeth lawn ac atebion i nifer helaeth o gwestiynau o'r llawr gan Mr Roberts.

Ar ddiwedd y cyfarfod, bu i nifer ofyn am gymorth a chyfarwyddyd pellach gan Blaid Cymru yn lleol ac yn genedlaethol.

CYFARFOD PLANT DEINIOLEN: Daeth tymor y cyfarfod plant am eleni i ben ar brynawn lau, Ebrill 5 gyda the parti a sesiwn o chwaraeon. Trefnwyd y cyfan heb yn wybod i'r plant, a mawr oedd syndod a gwerthfawrogiad y criw llwglyd fu'n gyfrifol am wagio'r platiau mor sydyn!!

Bu'r tymor cyntaf hwn yn un hynod lwyddiannus gyda nifer dda o blant yn troi i mewn yn gyson. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau ar eu cyfer gan gynnwys actio, canu, posau, chwaraeon a gwaith llaw o bob math — a'r cyfan wedi eu seilio ar hanesion o'r Beibl.

Diolch i'r plant am eu ffyddlondeb ac yn enwedig i'r selogion hynny a ddaeth drwy bob tywydd. Diolch hefyd i'r tîm fu'n helpu i ofalu amdanynt ac i'r Parchedig a Mrs John Pritchard am eu hegni a'u brwdfrydedd.

Edrychwn ymlaen at weld pawb eto yn yr Hydref, wedi hoe fach dros yr haf. Bryd hynny bydd croeso cynnes unwaith eto i holl blant Deiniolen sydd rhwng 4 ac 11 oed ac i unrhyw oedolion fyddai'n fodlon helpu am rhyw awr unwaith y mis.

Cyn hynny, gobeithir trefnu diwrnod o weithgareddau pellach i'r plant — hwyl Haf — yn ystod y misoedd nesaf. Felly gwyliwch golofnau'r Eco am fanylion pellach. YMDDEOL: Yn ystod mis Mai bydd Mrs Betty Roberts yn ymddeol wedi blynyddoedd lawer yn gwasanaethu i feddygon y fro yn y clinic. Dymunwn yn dda iddi ar ei hymddeoliad.

Diwyd iawn bu'i mynd a'i dod,
Haedda seibiant dedwydda'n bod.

Beddargraff Dyn Lolipop

Yma y gorwedd 'Kojack'
Heb ei gap pig a'i anrac,
Croesi wnaeth heb lolipop
I'w olaf stop mewn Cadilac.

Selwyn Griffith

HANES YMWELIAD CI DIEITHR Â DEINIOLEN

A oes yma doiledau i'r cŵn?
Oes siwr iawn, taw a dy sŵn
A barnu oddi wrth dy gyfarth
Rhaid dy fod yn gi diarth

Aros i mi osod fy hun yn gyffyrddus
Oes mae yma rai cyhoeddus hwylus
Mi enwa i nhw i ti'n awr
Eistedda ditha i lawr.

Mae dau balmant y pentra
Yn un o'r llefydd gora
Yn enwedig o flaen y Post a Siop
Brymer
Gwna yn fano, a mi gei bleser
Mae o flaen y Welington hefyd yn llydan
braf
A cei gysgod o'r haul ym mhoethder yr
haf.

Blaen a cefn Tai'r Faenol
Dyna i ti le rhagorol
Ac i lawr y Batri
Ddwed Hywel ddim wrthat-ti

Neu cefn a blaen Caradog a Marian
Digonedd o le neno'r argian
Cae Tai a cefn Ffordd Deiniol
Dyna i ti safleoedd uwchraddol

Ac wrth dalcen y Bull, mae lle sbesial
Mewn cysgod a digon o sbwrial
Os byddi isio lle ar dywydd mawr
Mae 'na dai gwag yn Batri a Rhos Fawr.

O'r Bull i lawr mae'r pafin yn gul
A gormod yn cerdded, ac eithrio dydd
Sul
Dos i lawr at y garej sdim isio rhaw
Mae yno loris mawr cryfion i symud
pob baw.

Cofia mae 'na rybudd wedi ei osod allan
Dân i ddim i fod i bethma ym mhobman
Ond fedra i ddim ei weld heb sbectol
A pheth arall cheffais i fawr o Ysgol.

I lawr allt Gorlan ydi lle'r crachach
Ond ta i ddim cyn belled â fano bellach
A mae haner Pont yn llawer rhy berig
Hawdd fuasai i gi fyrsio'r pendics neu
dorri'i lengig.

A dyna i ti le handi yn y nos
I lawr entri Robin Jôs
A pe digwydd i ti fod ar bina
Neidia i mewn drwy ffenest i hen dŷ
Deina.

Pan ddaw yr alwad, cofia fod yn sydyn
Mae nhw yn chwilio amdanom ni
mewn Van felyn
Paid poeni am y carthu
Bydd rhywun siwr o'i sathru wedi iddi
dywyllu

H. J.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CYFLENWYR PORTHIAN IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

Y Fachell
Llanddeiniolen

Ffôn:
Port Dinorwig 670439



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORHTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

£1,000
CYNNIG ARBENNIG


£1,000
I DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

AM FIS MAI 1990 NEU TRA BO STOC

(ie, dyna chi, mil o bunnoedd)

ODDI AR BRIS CAR EWROPEAIDD Y FLWYDDYN

Y FIAT TIPO



LONDON GARAGE

CWM Y GLO

Ffôn: (0286) 870234

Er enghraifft

FIAT TIPO 1.4 FORMULA

Pris Arferol ar y Ffordd

~~£8,050~~

Pris Eco'r Wyddfa

£7,050

FIAT TIPO 1.6 DGT

~~£9,650~~

£8,650

DYMA RAI O NODWEDDION Y TIPO — DEWCH ATOM I GLYWED MWY



- * Car Ewropeaidd y Flwyddyn 1989
- * Mawr tu mewn heb fod yn fawr tu allan
- * Dewis o beiriannau — yn cynnwys diesel turbo a phetrol di-blwm
- * Hae'n 'galvanized' 100% i atal rhydu
- * Ffenestri mawr — hawdd gweld i bob cyfeiriad
- * Siap aerodynamig
- * Technoleg flaengar cynhyrchwyr ceir mwyaf Ewrop
- * Cragen gadarn i amddiffyn y teithwyr mewn damwain
- * Hatchback * Digon o le i 5 person

NI FU CYNNIG GWELL ERIOED MEWN PAPUR BRO — FELLY BRYSIWCH RHAG CAEL EICH SIOMI.
DEWCH Â'R COPI HWN O ECO'R WYDDFAGYDA CHI — GALL FOD YN WERTH MIL O BUNNOEDD!
HEFYD TELEDU LLIW PORTABLE GYDA PHOB **FIAT UNO** YN YSTOD MIS MAI

ECO'R IFANC

- 1 - COCH
- 2 - GLAS GOLAU
- 3 - OREN
- 4 - BROWN
- 5 - GWYRDD TYWYLL
- 6 - PINC
- 7 - GWYRDD GOLAU
- 8 - MELYN
- 9 - GLAS

DEFNYDDIWCH Y LLIWIAU PRIODOL I LIWIO'R LLUN



YR YSBRYD ARIAN

Alys Jones

Cefais y stori yma yn anrheg Nadolig ac roeddwn yn hoffi'r stori yma yn fawr iawn.

Doedd ar Tomos ddim eisiau mynd i dŷ ewythr Sam ar y fferm, ond cafodd amser cyffroes yno. Jeremeia Huws oedd enw y dyn oedd yn byw yno cyn ewythr Sam. Roedd o wedi cadw rhai pethau mewn sied fawr ar y fferm. Doedd neb yn gwybod be oedd yn y sied ond roedd Tomos a Elwyn ei ffrind jysd a marw eisiau gwybod. Roedd Jeremeia Huws yn byw mewn cartref hen bobol. Ar ôl darllen pennod dau dyma fi'n trio meddwl beth oedd yn mynd i ddigwydd nesa. Roedd Tomos wedi gweld rhywbeth gwyn yn y cae ac roeddwn i yn meddwl mai ysbryd oedd o. Roeddwn i yn meddwl bod Jeremeia Huws wedi marw a bod ei ysbryd o yn y sied.

Yr ysbrud arian ydi enw'r sdori. A beth oedd yn y sied ond Rolls Royce silver GHOSD. Dw i yn meddwl y bysa plant yn cael hunllef ar ôl darllen fy sdori i. Roedd stori Mrs Alys Jones yn dda iawn.

**Gwion Iwan,
4 Talybont
Llanrug.**

Diolch yn fawr i ti Gwion am yr adolygiad hyfryd yma o lyfr Alys Jones. Ydych chi wedi darllen llyfr da yn ddiweddar? Beth am rannu eich profiadau hefo ni. Sut lyfrau ydych chi yn eu mwynhau? Stori antur? Stori ddoniol? Stori natur? Anfonwch i mewn i ddweud!!

CORNEL JÔCS

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy' 'na!
Arab.
Arab pwy?
Araben y bryn
Mae sgwarnog fach !!!!!


Be 'da chi'n galw deryn du hefo gwn?
Perygl!!!

Hei Will!
Beth?
Ble mae dy gath di'n mynd ar ei gwylliau?
Ynysoedd y Caneri!!!!

Pam na ddylech chi ddadwisgo o flaen taten?
Am fod ganddi lygaid!!!

Canmoliaeth arbennig i'r canlynol am ddod yn agos iawn i'r brig:
Bethan Roberts, 14 Ceunant Street, Llanberis (5); Llion Dafydd, Glanfa, Waunfawr (6); Emma Morris, 2 Maes Padarn, Llanberis (7½); Richard Henri Jones, 94 Pentre Helen, Deiniolen (8); Dylan Vaughan Williams, Goronwy Street, Gerlan (10).

EWCH O DDOT I DDOT



Cafwyd nifer fawr o geisiadau ar Gystadleuaeth Mis Ebrill. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi! Daliwch ati rwan — efallai mai chi fydd enillydd Mis Mai! Cofiwch anfon eich gwaith i'r 'Gornel' Pant Bryn Gwyn, Tan y Coed, Llanrug. Enillwyr cystadleuaeth Mis

Ebrill yw:
Donna Griffiths, 35 Bro RHyddallt, Llanrug (5 oed); Jamie Morris, 2 Maes Padarn, Llanberis (4½); Kellie Ann Davies, 5 Pentre Helen, Deiniolen (6 oed); Ffion Lloyd Hughes, 1 Coed y Glyn, Llanberis (7 oed).

CYSTADLEUAETH MIS MAI

ENW
CYFEIRIAD
.....
.....
OED



LLIWIWCH Y LLUN

BYCHAN O FYD

Gan SELWYN GRIFFITH

Roedd erthygl Mr John Ellis Williams dan y pennawd 'Bychan o Fyd' yn y rhifyn diwetha' o'r Eco yn hynod o amserol fel mae'n digwydd.

Tra roeddwn yn Awstralia ychydig yn ôl, fe euthum i'r Capel Cymraeg yn Melbourne, lle mae Helen (chwaer Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt) a'i gŵr yn gofalu am y capel yno. Cafodd Myra a minnau groeso mawr a hyfryd oedd cael cyd- addoli, a chyd gyfarfod unwaith eto â rhai a welais yn yr un capel bron i bymtheng mlynedd yn ôl.

Ar ddiwedd y gwasanaeth, cefais y llyfr y sonia John Ellis Williams amdano yn ei erthygl, ac rwy'n hynod o falch o gael dweud ei fod o bellach yn ddiogel yn nwylo Mrs Mary Davies yn Llys y Gwynt, Penisarwaun.

Mae pymtheng mlynedd yn gadael bwlch naturiol, ac un ffrind nad oedd bellach yn y capel i'm croesawu, oedd hen gyfaill bore oes i mi, sef Alfred Jones o Fethel (Alfred Siop Bach). Bu farw Alfred ychydig flynyddoedd yn ôl. Cofiaf i mi gael amser difyr yn ei gwmni y tro diwetha y bu i mi ymweld â phen draw'r byd.

Yn sêr fawr y Capel Cymraeg yn Melbourne mae 'na gadair Eisteddfod. Cadair Eisteddfod 'Genedlaethol' Llanrwst 1932 yn ôl y plac a osodwyd arni. Cyflwynwyd y gadair i'r eglwys ychydig wythnosau yn ôl. Gŵyr y cyfarwydd mai camgymeriad

yw'r ffaith y cyfeirir ati fel cadair y 'genedlaethol' gan mai dim ond dwywaith y bu'r brifwyl yn Llanrwst, sef yn 1951 a'r llynedd.

Mae'n bur debyg mai Cadair Eisteddfod Fawr Dyffryn Conwy a gynhelir yn flynyddol yn Llanrwst yw'r gadair a gyflwynwyd i'r eglwys yn Melbourne, ond roedd o'n gyd- ddigwyddiad diddorol iawn i mi o gofio'r profiad a ddaeth i'm rhan yn Llanrwst y llynedd — ie, 'bychan o fyd'.

Yn sicr profiad hyfryd oedd cael y cyfle i gyd-addoli ac i gyd- gyfarfod â Chymry yng nghapel Cymraeg Melbourne, Awstralia unwaith eto — Cymry o Cesarea, Ynys Môn a Phenisarwaun, ar gychwyn taith ar hyd ac ar led cyfandir mawr Awstralia.

Ia, 'Bychan o Fyd' yn sicr John Ellis — gobeithio i chi gael y llyfr.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

KMP LLANBERIS
Ffôn: 870880

CAERNARFON - LLANBERIS - NANT PERIS

LLUN I SADWRN O 30 EBRILL 1990 YMLAEN

BOB HANNER AWR O 9.05 a.m. HYD AT 6.05 p.m. O GAERNARFON

																												*
NANT PERIS			8.05		8.55													3.55		4.55		6.05		8.10	9.35	10.40		
LLANBERIS	7.10	7.40	8.10	8.30	9.00	9.30	10.00	10.30	11.00	11.30	12.00	12.30	1.00	1.30	2.00	2.30	3.00	3.30	4.00	4.30	5.00	5.30	6.10	6.50	8.20	9.40	10.45	
BRYNREFAIL	7.18	7.45	8.20	8.40	9.10	9.40	10.10	10.40	11.10	11.40	12.10	12.40	1.10	1.40	2.10	2.40	3.10	3.40	4.10	4.40	5.10	5.40	6.18	7.00	8.30	9.50	10.50	
CWM-Y-GLO	7.21	7.50	8.23	8.43	9.13	9.43	10.13	10.43	11.13	11.43	12.13	12.43	1.13	1.43	2.13	2.43	3.13	3.43	4.13	4.43	5.13	5.43	6.22	7.05	8.33	9.53	10.53	
LLANRUG	7.27	7.53	8.30	8.45	9.15	9.45	10.15	10.45	11.15	11.45	12.15	12.45	1.15	1.45	2.15	2.45	3.15	3.45	4.15	4.45	5.15	5.45	6.25	7.10	8.35	9.55	10.55	
CIBYN	7.32	7.58																										
CAERNARFON	7.35	8.00	8.45	8.55	9.25	9.55	10.25	10.55	11.25	11.55	12.25	12.55	1.25	1.55	2.25	2.55	3.25	3.55	4.25	4.55	5.25	5.55	6.35	7.15	8.45	10.05	11.05	

BOB HANNER AWR O 8.30 a.m. HYD AT 5.30 p.m. O LANBERIS

CAERNARFON	7.40	8.10	8.50	9.05	9.35	10.05	10.35	11.05	11.35	12.05	12.35	1.05	1.35	2.05	2.35	3.05	3.35	4.05	4.35	5.05	5.35	6.05	6.40	7.20	9.00	10.10	11.10
CIBYN																				5.10							
LLANRUG	7.48	8.20	9.00	9.15	9.45	10.15	10.45	11.15	11.45	12.15	12.45	1.15	1.45	2.15	2.45	3.15	3.45	4.15	4.45	5.15	5.45	6.15	6.50	7.30	9.10	10.20	11.20
CWM-Y-GLO	7.50	8.23	9.03	9.18	9.48	10.18	10.48	11.18	11.48	12.18	12.48	1.18	1.48	2.18	2.48	3.18	3.48	4.18	4.48	5.18	5.48	6.18	6.53	7.33	9.13	10.23	11.23
BRYNREFAIL	7.55	8.28	9.08	9.22	9.52	10.22	10.52	11.22	11.52	12.22	12.52	1.22	1.52	2.22	2.52	3.22	3.52	4.22	4.52	5.22	5.52	6.22	6.56	7.36	9.16	10.26	11.26
LLANBERIS	8.00	8.38	9.15	9.27	9.57	10.27	10.57	11.27	11.57	12.27	12.57	1.27	1.57	2.27	2.57	3.27	3.57	4.27	4.57	5.27	5.57	6.27	7.05	7.45	9.25	10.35	11.35
NANT PERIS	8.05	8.50																4.35			6.02		7.10	7.50	9.32	10.40	11.40

* = Nos Wener a Nos Sadwrn yn Unig

YN YSTOD Y DYDD BYDD BYSIAU YN GADAEI
LLANBERIS BOB HANNER AWR
AR YR AWR AC AM HANNER AWR WEDI'R AWR

LLANRUG CHWARTER I'R
AWR A CHWARTER WEDI'R AWR

TOCYNNAU GWAITH RHAD: **£3** yr un
i'w defnyddio CYN DEG Y BORE ac
AR ÔL TRI Y PNAWN (Llun — Gwener)

TOCYN WYTHNOS: **£4** yr un
i'w defnyddio AR UNRHYW AMSER (Llun — Sadwrn)

TAN Y COED

Gohebydd: Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn 872 276.

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am **GRIW O BLYGWYR** i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar **NOS IAU, MAI 31ain.**

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlwn â Miss Megan Humphreys, Cadnant, ar farwolaeth ei chwaer Katie Pritchard ar Fawrth 26.

DIOLCH: Dymuna Gareth, Megan a Huw Humphreys ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd yn eu profedigaeth o golli mam a chwaer annwyl, sef Mrs Katie Pritchard, 2 Tai Tan-y-Coed.

Gwerthfawrogant yn arbennig garedigrwydd y cymdogion a gofal y meddygon — Dr Williams a Dr Roberts, dros nifer o flynyddoedd.

Diolch i'r Parch John Morris am arwain y gwasanaethau angladdol, i'r Parch W. O. Roberts am ei deyrnged, a'r Parchedigion Gwenda Richards ac E. R. Lloyd Jones am eu cyfraniad hwy.

Diolch hefyd am y rhoddion er côf, tuag at Gapel Tan-y-Coed, ac i Mr Selwyn Morris am drefnu'r angladd mor raenus.

Teyrnged i Mrs K. Aubrey Pritchard: Cofiw'n am y ddwy chwaer ym Methania, Mair a Martha, un yn wraig ymarferol a'r llall yn rhoi lle mawr i ddefosiwn. Yr oedd Mrs Katie Pritchard yn gyfuniad o'r ddwy.

Roedd yn ymarferol; treuliodd ei hoes yn gofalu am ei chartref ar un llaw — yr oedd yn fam a chwaer ardderchog. Yr oedd hefyd yn ffyddlon i'w chapel, ac yn ddisgybl da i Iesu Grist. Nodweddid ei bywyd gan sirioldeb a charedigrwydd mawr. Yn gymeradwy gan bawb yn Tan-y-Coed a Llanrug, yr oedd yn gymydog da, gyda phawb a gair da iddi.

Bydd ei cholli yn golled fawr yn yr ardal, yng Nghapel Tan-y-Coed, ac yn arbennig yn ei chartref lle y treuliodd hi a'i chwaer flynyddoedd hapus gyda'i gilydd.

Cydymdeimlwn â'i mab, Mr Gareth Pritchard. Bydded i eiriau'r emynydd fod yn ysbrydiaeth a chysur iddo: 'Cariad Duw fo eto yn arwain, cariad mwy na chariad mam.'

Cydymdeimlwn hefyd a'i

chwaer a'i brawd. Bydded i'r Crist yr hwn a gysurodd deulu bach Bethania, fod yn gysur a nerth iddynt.

Mae eglwys Tanycoed wedi colli un o'i ffyddloniaid anwylaf. Gweddiwn am i'r Arglwydd eto godi eraill i lenwi'r bwlch.

W.O. Roberts.

BEDYDD: Bedyddiwyd William Geraint Hughes, mab bychan Mr a Mrs W. Hughes a w'yr cyntaf Mr a Mrs H. J. Roberts, Tai Newyddion, ddydd Sul, Ebrill 15.

LLONGYFARCHIADAU i Steven Prys Williams, Prysgol, ar ddod yn drydydd yn y Ras Draws Gwlad a drefnwyd gan yr Urdd. Cynrychioli Ysgol Gynradd Llanrug yr oedd Steven. Derbyniodd Fedal Bres am ei gamp. Da iawn Steven.

Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd, Richard William Jones Roberts, Prysgol. Wedi gyrfa lwyddiannus yn y Coleg yn Aberystwyth enillodd Richard radd M.D. Yn ddiweddar aeth Richard i Ontario, Canada, i gael profiad o 'Ffermio Amrywiol' am saith mis. Ein dymuniadau gorau i Richard yn ei fenter newydd.

PRIODAS: Ar ddydd Sadwrn, Mawrth 17 yng Nghapel y



Priodas Megan B. Griffith a Robert John Thomas yng Nghapel y Bryngwyn yn ddiweddar.

Llun: Islwyn Jones, Llanrug.

Bryngwyn, priodwyd Miss Megan B. Griffith, Llys Meredydd, Tan-y-Coed â Mr Robert John Thomas, 8 Stryd y Capel, Brynsiencyn.

Gwasanaethwyd gan y Parch J. Ronald Williams, Caernarfon. Yr organydd oedd Mr Gareth Roberts, Gregynog, Llanrug. Rhoddwyd y briodferch i ffwrdd gan ei brawd Mr John Wyn Griffith. Y morynion oedd ei thair nith, Catherine, Sioned a Mari. Y gwas priodas oedd Mr Evan R. Roberts (ffrind), a'r ystlyswyr oedd Mr John N. Owen (cefnder y briodferch) a Mr Robert W. Griffith (nai y briodferch).

Cafwyd y wledd yng Ngwesty Victoria, Llanberis. Gwnaed y gacen gan ffrind y priodfab. Byddant yn ymgartrefu yn Llys Meredydd.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs R. J. Thomas ddiolch i bawb am eu anrhegion, arian, a'r cardiau ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: Yng Nghapel Seilo, Llandudno, ar Fai

10fed, bydd Miss Megan Humphreys, Cadnant yn derbyn Tystysgrif Anrhydedd gan Gynor Eglwys Rhyddion Gogledd Cymru fel arwydd o werthfawrogiad am wasanaeth ffyddlon i'r Ysgol Sul dros nifer helaeth o flynyddoedd.

Dr. DAN HUGHES YN YMDDEOL

Tawel yr ymneilltuodd — ein gwron, Ei goron a gadwodd:

O'i 'wyllys gwnaeth a allodd, Heddiw'i ran yw hedda a rhodd.

Glan Rhyddallt

Cyfansoddodd fy nhad yr englyn uchod i gyfarch y diweddar John Morris Jones, Hedsor Villa ar ei ymddeoliad o fod yn arweinydd y gân ym Mhontryddallt am 25 mlynedd. Y mae'r englyn yr un mor bwrpasol i gyfarch Dr Hughes.

Mary Lloyd Williams

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



DRAENOG



Roedd hi braidd yn oer i fentro i gopa'r Wyddfa ar ddydd Gwener y Groglith, ond yno roedd Draenog yn hel clecs eleni. Er gwaethaf yr eira, roedd torf o bobl yn disgwyl eu twrn i gael y fraint o sefyll ar y copa. Yn anffodus, doedd y toiledau ddim ar agor chwaith yn ôl y sôn. Efallai fod a wnelo hynny â'r ffaith fod yr eira wedi dadmer yn weddol sydyn!

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

GWILYM H. WILLIAMS

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL**

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION




Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Am bob math o
WYDR wedi'i
**DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.**
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

Agor Ffiniau'r Gorffennol

'HAWDD YW MOLI EILUN CALON'

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Mewn cystadleuaeth ffurfio llinell i ganmol a hysbysebu tē enillodd y llinell yma bunt o wobwr oddeutu diwedd y ganrif ddiwethaf yn yr Herald Cymraeg: 'Hawdd yw moli eilun calon'. Cystadleuaeth oedd hi i ffurfio llinell i ganmol a hysbysebu tē.

Pan ddaeth yfed tē yn beth cyffredin yn y wlad hon gwnaeth rhyw fardd gân ddigrif a chanwyd llawer arni. Dyma ran o'r gân. Nis gwn pwy oedd yr awdur.

Pan fydd gwaew yn dy ben,
Nes bydd ar ymagor,
Gofyn di am dē gan Gwen
Yn lle mynd at y doctor.

Sŵn y llestri ar y bwrdd
Su y dwfr yn berwi,
Yrr y gwaew'n glir i ffwrdd
Cyn i ddyn ei brofi.

Yr oedd tybaco yn cael ei arfer yn y wlad hon gan mlynedd o flaen tē. Y dynion yn unig oedd yn ysmygu a rhyfeddod mawr fyddai gweld dynes yn gwneud.

Blodau Gwyn

Gwyn ydyw lliw'r blodau ar lwyni tē. Maent yn debyg i'n rhosynnau gwylltion ni. Cesglir y dail oddi ar y planhigion amryw weithiau yn ystod y flwyddyn.

Tri chynhaeaf a geir fel rheol, ond y cynhaeaf cyntaf o'r flwyddyn yw'r gorau, pan fo'r dail yn dyner. O'r cynhaeaf hwn y gwneir y te gorau ac mae ei liw yn oleuach.

Cymysgir llawer ar y tē cyn y daw i'r siopau. Mae'r gwaith o dynnu'r dail oddi ar y planhigion tē yn waith cywrain ac yn gofyn gofal a glanweithdra mawr. Ni thyn un dyn fwy na deg pwys mewn diwrnod.

Hyd yn gymharol ddiweddar ystyrid yfed tē yn ein gwlad yn arferiad moethus. Ni fedrai'r tlodion yn aml ei brynu ac felly'r cyfoethogion oedd yn gallu fforddio cael tē.

Pan ddechreuodd gwerin gwlad ei yfed dygent ef i'w tai yn y dirgel gan ei guddio mewn swildod.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Yr oedd cymaint o gywilydd i'r merched yfed tē a phe delid rhai heddiw yn yfed 'methyated spirit'. Gyda chywilydd hefyd yr arferai merched ysmygu. Ond mae amser wedi newid llawer o bethau, a hynny'n gyflym iawn.

1616 Dwad A Dail Tē

Daethpwyd â dail tē i'r wlad hon gyntaf yn y flwyddyn 1616 gan Arglwydd Arlington o Holland. Oddeutu'r un amser anfonodd Cymdeithas India Ddwyreiniol anrheg o ddau bwys o dē i'r Brenin Siarl II ac yn ddiweddarach anfonwyd can pwys o dē yma.

Dywedir bod ei bris yn dair punt y pwys ar y pryd. Yn ychwanegol fe osodid treth o wyth geiniog am bob galwyn o dē a yfid mewn lle bwyta.

Prin iawn fu ffirwyth y ddeilen dē hyd y flwyddyn 1800 a chwpanau bychain a ddefnyddid i'w yfed.

Ond o'r flwyddyn 1800 ymlaen cynyddodd y fasnach dē yn gyflym iawn. Yn y flwyddyn 1831 cludwyd 28 miliwn o bwysi o dē i Brydain. Yr un adeg roedd Prydain yn dechrau rhagori ar yr holl wledydd o ran llongau masnach cyflym. Hwylent adref am y cyntaf o fôr China gyda llwythi o dē i gyflenwi'r fasnach, ac o hyn ymlaen daeth tē'n ddiod genedlaethol gan ddisodli cwrw.

Cwpaned o Dē

Fel hyn yr arferai fy nhad ofyn am gwpaned o dē: 'paned o dē sy'n poeni dy dad!'

Dywedai rhai doctoriaid flynyddau'n ôl nad oedd tē yn iach a choeliodd llawer o bobl hynny. Ond fy marn i ydyw nad oes ddiod well na iachach na thē, ond iddo gael ei wneud yn iawn.

Cofiaf feddyg o Fethesda yn cynghori gwaig a adwaenwn i yfed digon o dē yn feddyginiaeth at ei hafiechyd. Credai'r meddyg hwnnw hefyd fod tē yn llesol at annwyd a chur pen.

Y mae tē yn help i chwysu'r annwyd allan ond ei yfed yn boeth yn y gwely gyda digon o siwgr a llefrith.

Am gael iechyd dyn i'w le
Eithaf peth yw pryd o dē
Melys, melys,
Wedi'i osod ar y bwrdd
Yn drefnus, drefnus.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Cfon 3536.

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am GRIW O
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Dis-gwylir y pregethwyr canlynol yn ystod mis Mai — 6ed: Cymanfa Ganu; 13eg: Huw Jones; 20ed: H. Gwynfa Roberts (cyfarfod codi blaenoriaid); 27ain: Gwasanaeth yr Urdd yng Nglynllifon; Mehefin 3ydd (Sulgwyn): Harri Parri.

Yr uchod i gyd am 2 yn y pryn-hawn. Croeso i bawb, hen ac ifanc. SIOE'R PENTREF: Yn ystod mis-oedd Mawrth ac Ebrill gwelwyd cymysgiad o dywydd braf, hafaidd a chyfnodau gaeafol. Beth bynnag, roedd cyfle i bawb blannu ar gyfer

Sioe'r Pentref a gynhelir ar ddydd sadwrn, Awst 18. Ar gyfer aelwydydd hen ardd neu heb 'fysedd gwyrdd', ceir adrannau eleni ar gyfer planhigion pot, gwau dillad a chrefftau. Dosberthir rhaglen lawn i bob tŷ cyn bo hir. GER-Y-TÂN: Cafwyd noson hwyliog ym Mhenrhos Arms, Llanfair P.G. mis diwethaf. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 25.

CYDYMDEIMLIR â Mrs Heulwen Atkinson a'i mam, Cefn Gôf, ar golli merch a chwaer yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

TAITH AR Y MURRAY



Murray — un o afonydd mwya Awstralia.

Taith ar y Murray

Fforest
a'i brigau brau
yn fyddin o sgerbydau
ar y dorlan.

Nadroedd o wreiddiau
yn glymau ar y glennydd,
cyrn ceirw yn ymestyn i'r glas,
a boncyff o grocodeil
yn llercian yn y dyfroedd llwyd.

Adar barus yn pysgota
a stemar badlo yn corddi'r
llonyddwch;
llais tun ar y tanoi
yn adrodd stori ddoe
pan ddiplannodd carnifal y coed
dan ddyfroedd y Murray.

Selwyn Griffith

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

SIMNEIAU GWael? CRACIAU
MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS

Cysylltwch â David Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwyr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

DINORWIG

Gohebydd Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am GRIW O
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

Fe berthyn i bob tymor ei nodweddion arbennig ei hun, ac nid yw'r tymor presennol yn eithriad, er bod rhaid cydnabod bod amrywiaeth i'w gael lle mae tymhorau yn y cwestiwn. Fe ddichon fod gan Ogledd Cymru rhywbeth i'w dystiolaethu ar y pwynt hwn.

I fyny hyd at Sadwrn Ras Gychod y Colegau, roedd y tywydd yn eithriadol o dyner — bron na allem ddweud bod y gwanwyn a'r haf wedi cyrraedd yn gynnar, ond yn fuan iawn fe ddaeth newid pur annisgwyl. Fe fynnai'r gwynt fod yn Ogleddol, ac fe ddaeth hwnnw a stormydd cas i drigolion glannau môr Gogledd Cymru. Fe welwyd rhannau helaeth o'r diriogaeth o dan wyneb y dyfroedd a ddeuai'n ddidostur i mewn i'r tir. Fe sbwyliwyd pridd y gerddi gan y dyfroedd hallt, ac fe fu raid i nifer o bobl adael eu cartrefi

i chwilio am loches mewn ystafelloedd ysgolion ac adeiladau eraill oedd uwchlaw'r dyfroedd. Y canlyniad oedd na wyddai mwyafrif y rhai a orfodwyd i adael eu cartrefi, pryd y gallent ddychwelyd, ac roedd peth amheuaeth a fyddai'n bosibl iddynt ddychwelyd i'w tai eilwaith gan fod y difrod mor llwyr ac enbyd.

Fe fu cryn feirniadu ar lywodraeth gwlad am iddynt fethu (neu esgeuluso) darparu'n briodol ar gyfer y rhai a daflwyd i drybini. Y canlyniad oedd bod rhai fel Miss Boht yr actores adnabyddus o'r Wirral, a Mr Neil Kinnock, arweinydd yr Wrthblaid yn y Senedd yn galw am gynorthwyo ebrwydd i liniaru'r boen a'r trallod. Llusgo traed a wnai'r rhai a allai estyn cymorth, ac mae lle cryf i gredu na sylweddolid maint y broblem. Rhaid, er hynny, edmygu ymdrechion yr aelodau seneddol sydd yn teimlo mai eu problem arbennig hwy yw hyn — rhai fel Mr Anthony Meyer, Mr Dafydd Elis Thomas a Mr Dafydd Wigley.

COFION: Yn gynnar yn y mis fe

ddathlodd Mrs Mary E. Jones, Ty'n Fawnog, ei phen blwydd yn un ar ddeg a phedwar ugain oed (91). Fe ddeallwn i Mrs Jones fod yn cwyno yn ystod Sul y Pasg, ond mae hithau bellach yn gwella'n foddhaol er wrth gwrs bod ei hoedran yn galw am ofal. Fe hoffem ei gweld yn dathlu ei chant oed!

GWEINIDOG: Fe gawsom rai colledion yn ddiweddar a gweddiwn am rai i lenwi'r bylchau. Yr ydym ni gapeli Bedyddwyr y cylch sy'n cynnwys Penuei, Bangor; Bethel, Caerllwyngrudd; Libanus, Clwt y Bont a Sardis, yn chwilio'n ddyfal am weinidog i'n harwain ymlaen i'r dyfodol. Sylweddolwn nad yw'r dewis mor niferus ag yn y gorffennol, ond fe hyderwn y coronir ein hymdrechion â llwyddiant. Fe gollasom nifer o'n pobl ieuainc i gylchoedd eraill gan bod diwydiannau yn brin o gylch eu cartrefi. Fe fu amryw yn dadlau'n gyson na byddai galw am ymfudo pe sicheid gwaith iddynt o fewn cyrraedd hwylus. Faint tybed a all llywodraeth gwlad neu lywodraeth leol ei wneud yn y cyfeiriad yma? Nid yn unig fe gollir y plant ond hefyd y rhai a ddaw ar eu hôl. Pa sens sydd yn eu cludo i Lerpwl, Manceinion, Birmingham a lleoedd eraill a dod ag estroniaid yn eu lle.

Prin y gallaf gofio tymor mor gyfoethog mewn Cennin Pedr a Tiwlips yn ein gerddi. Yn sicr ddigon mae'r tywydd wedi bod yn ffafriol iddynt hwy. Serch hynny, ni fu'n wyliau y gellid eu treulio ar dywod glannau'r moroedd. Fe ddichon y bydd rhaid disgwyl i'r gôg ddechrau canu cyn y gellid hamddena yn y dull traddodiadol. Er mor araf yw'r tymor, eto fe hyderwn y daw mis Mai â thywydd mwy caredig i ni, ac y gallwn eto dreulio ychydig oriau yn y gerddi yn tacluso, hau ac ail-blannu. Wedi'r cyfan byw mewn gobaith parhaus yr ydym a disgwyl pethau gwell i ddyfod.

DIOLCH: Dymuna Gareth a

Marian, Bryn Sardis, ddiolch o galon i bawb a fu'n garedig tuag at eu merch Catrin Elin ar achlysur ei geni. Fe hoffem ninnau yn 8 Maes Eilian a fu'n gymdogion iddynt pan yn byw yn Nhŷ Capel Sardis, eu llongyfarch ar gael rhodd o ferch i sirioli'r aelwyd.

Beddargraff Hwlgan

Fe gafodd yntau glatsien
Y bwli mawr bol casgen,
A goeli di mai 'Desperate Dan'
Sy' yma dan dywarchen.

Selwyn Griffith

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed, 870580

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am GRIW O
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

CROESO: Estynnwn groeso cynnes i Mr a Mrs John Morris i'w cartref newydd, Griolen ar stad Erw Nant. Mae Mr Morris yn bennaeth adran Celf a Chrefft y Coleg Normal ym Mangor a bu Mrs Morris yn athrawes am gyfnod yn ddiweddar yn Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo.

EGLWYS M.C.BRYNREFAIL: Mewn cyfarfod o'r Ysgol Sul ar Fawrth 25, cyflwynwyd rhodd i ddathlu'r Pasg i'r plant a'r ieuencid ar ran yr Ysgol Sul gan Mrs Jennie A. Roberts, Glandwr.

Ar derfyn y cyfarfod, bedyddiwyd Llion Bryn, plentyn Iwan a Delyth Jones, 5 Minffordd. Gweinyddwyd y Sacrament gan y Gweinidog, y Parch John Morris. Yn y gwasanaeth hwyrol ar Sul y Pasg gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Gweinidog.

Mynegodd Mr Richard W. Evans ei hyfrydwch o weld Mrs Mair Griffith a Mr Elfed Roberts ynghyd ag ymwelwyr yn yr oedfa ac anfonwyd cofion yr Eglwys at yr oll o'r aelodau yn arbennig y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Dathlwyd Gŵyl Ddewi â chinio yng Ngwesty Victoria, Llanberis. Mwynhaodd pawb bryd ardderchog ac yn dilyn, croesawodd y Llywydd Mrs Pat Jones, y gŵr gwadd, Mr Bob Haines, Caernarfon. Cafwyd anerchiad diddorol a bywiog ganddo yn adrodd llu o atgofion tra'r oedd yn y Gwasanaeth Milwrol, ar deithiau yn yr Amerig ac yn ei gynefin yng Nghaernarfon a'r cyfan yn tanlinellu cysylltiadau â'n hetifeddiaeth fel Cymry. Diolchwyd iddo gan Miss L. P. Roberts.

Gwaith Adeiladu? Gwaith Grant ac Insiwrans?
Dewch at

R. A. OWEN

9 TAI GLANDWR, CLWT Y BONT

DEINIOLLEN

Ffôn 870693 (dydd) 870069 (min nos)

*Trwsio Toi, Teilsio Waliau a Lloriau, Concritio Llwybrau,
Plastro, Gosod Llechi, Paentio ac Addurno, Waliau,
Byrddau Plastar, Trwsio Simneiau, Gwaith Plymio.*

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau**

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



SIOP

Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN

GARDADIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn:Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

GLASLYN ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS

**PRYNIR A
GWERTHIR**

*Hen Bethau, Darluniau
a Dodrefn y gorffennol*

FFÔN:

LLANBERIS

870080

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am GRIW O
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.



Mr a Mrs Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd yn dathlu eu Priodas Aur.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd ar ddathlu eu Priodas Aur ar Ebrill 13. Llongyfarchiadau hefyd i Miss Megan Davies, Craig-y-Don ar achlysur ei phenblwydd yn 70. POBL Y CWM: Ar Fawrth 22ain daeth Mr Robert Williams, Llanrug i roi sgwrs i'r Clwb. Aeth yn ôl i gyfnod ei blentyndod yn Nhan y Coed, a diddorol fu gwrandio arno'n sôn am bethau ddod — cael mynd i hen Orsaf Radio Cefn Du, lle gweithiai ei dad, a dechrau mynd i'r ysgol yn Bryn Eryr. Cawsom ein hatgoffa o chwaraeon y cyfnod, y rhai a gollwyd erbyn hyn, a'r direidi diniwed rhan amlaf. Bu'n sôn am arferion fel mynd a thoes i grasu i'r becws, a gorffennodd gyda arholiad yr '11 plus' a'i ddiwrnod cyntaf yn Ysgol Sir Bryn'Refail. Diolchodd Mr R. H. Parry i Mr Williams. Rhoddwyd y baned a'r Raffl gan Mrs M. Parry a Mrs G. Pritchard, ac enillwyd y Raffl gan Mrs E. M. Jones.

Miss Mat Pritchard oedd ein Gwraig Wâdd ar Ebrill 5ed a chroesawyd hi gan y Llywydd, Mr Llew Hughes. I ardal Llanberis yn ystod y ddau a'r tri degau y buom yn ei chwmmi. Dyma gyfnod bri y capeli a'r eglwysi, pryd y disgwyliad i blant ddysgu ar gyfer holl gyfarfodydd yr eglwysi, yn ogystal ag eisteddfodau lleol, a gwaith ysgol. 'Roedd hefyd yn adeg cyflogau prin, a gwaith caled ac

aml ddamweiniau yn y chwarel, tai heb fawr o gyfleusterau, a llawer o afiechyd. Trwy'r cwbl 'roedd llawer o hwyl, a bu'r 'pictiws' yn Llanberis yn lle i ymlacio a lledu gorwelion. Diolchodd Mrs G. Chick i Miss Pritchard am bnawn hynod o ddifyr. Y gwestwagedd oedd Mrs E. M. Jones a Mrs M. Williams. Enillwyd y Raffl gan Miss E. Hughes.

YSGOL GYMUNED CWM-Y-GLO: Fel arfer, mae gan rywun amser i sgwennu llith ond ar fy ngwyliau dim ond neges cerdyn post sydd gennyf i chwi! (Gyda llaw, 'rwyf yn treulio fy ngwyliau Pasg eleni ar baradwys o ynys, lle mae bywyd yn fêl a phoenau'r byd mawr ym mhell o'm hôl.)

Llongyfarchiadau i Karen Jones ar ennill gwobr am lenwi pŵs croeseiriau yn un o gylchgronau'r Urdd.

Diolch i'r rhieni am eu presenoldeb mewn cyfarfod i drafod 'Lle'r Cyfrifiadur yn y Cwricwlwm Cenedlaethol'.

Bu Mrs Sally Jones, Nyrs Ddeintyddol yn yr ysgol yn rhoi sgwrs ar drin dannedd a bwyta'n iach i Safonau 1, 2, 3 a 4. Diolch o galon am sgwrs ddifyr ac am ddangos y fideo.

Oes yna ryw salwch yn mynd o gwmpas yr ysgol? Wrth i mi ysgrifennu hyn, mae Mrs Orritt yn symol. Gobeithio y bydd wedi gwella erbyn y bydd yr Eco wedi dod o'r wasg.

Mae plant Cwm-y-Glo yn enwog am eu cymorth i eraill ac am helpu achosion da. Efallai fod rhai wedi bod ar eich gofyn yn barod, yn eu hymgais i helpu cleifion Ysbyty Gwynedd. Diolch am eich cefnogaeth. Cofiwch, os gwelwch yn dda, gadw nos Sadwrn, Mai 12fed yn glir gan fod Disco yn cael ei gynnal yn Neuadd yr Ysgol gyda'r elw, eto, yn mynd at achosion da lleol. Gellir cael mwy o fanylion gan Bryn, Martin, David a Tony. Cadwch eich llygaid yn agored am y posteri a fydd yn ymddangos yn fuan a chofiwch roi polish ar eich 'sgidiau dawnsio!



Mr John G. Williams, swyddog gyda Cymdeithas Clybiau Ieuencid Cymru yn cyflwyno tystysgrif i Steven Paden o Glwb Ieuencid Cwm-y-Glo am ddod yn ail drwy Gymru yn y gystadleuaeth Penawdau Cartŵn. Gwelir aelodau'r Clwb yn y cefndir.

Rhaid i mi dawelu rwan, gan fod y post i'r 'tir mawr' ar gychwyn. Hwyl fawr i bawb. Cofiwch am y pwysau pan fyddwch yn 'claddu' y Wyau Pasg!!

O.N. — Os ydych chi am wyliau difyr ar baradwys o ynys, gwnewch fel fi — croeswch Bont y Borth a dewch i Ynys Môn!!

CLWB IEUENCTID: Cyn i dymor y Clwb ddod i ben ar nos Iau, Ebrill 5ed, daeth y newydd da fod Steven Paden, un o aelodau'r Clwb wedi dod yn ail trwy Gymru gyfan mewn cystadleuaeth 'Penawdau Cartŵn' a drefnwyd gan Gymdeithas Clybiau Ieuencid Cymru. I ddathlu'r achlysur daeth Mr John G. Williams, un o

swyddogion y Gymdeithas i'r Clwb i gyflwyno'r tystysgrif i Steven. Llongyfarchiadau mawr iddo. Y newydd arall yw bod Mr Glyn Tomos wedi penderfynu rhoi gorau i'w swydd fel Arweinydd, sydd yn golygu y bydd gan y Clwb arweinydd newydd o fis Medi ymlaen.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Gwyliau yn Awstria i Gymry Cymraeg

Awst 12fed - 21ain

Oedolion a Phlant £230

**Os am fwy o wybodaeth
cysylltwch â John Llyfnwy,
Llithfaen 275**

GWASANAETHAU ARIANNOL

ERYRI

FINANCIAL SERVICES



41B STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 872003



Guardian
Royal
Exchange

leobro



**GOFAL A
THRWSIO ARFON**
Cynllun i gynorthwyo'r
henoed/anabl i drefnu
trwsio'u tai

YN EISIAU

Technegwyr â phrofiad wrth baratoi
cynlluniau gwella/atgyweirio tai a rhaglenni
gwaith ar eu liwt eu hunain.

Cysyllter â'r trefnydd, GATHA, Ty Silyn, Y
Sgwâr, Penygroes, Gwynedd, LL54 6LY. Rhif
Ffôn: Penegroes 881576.

Y GARREG FAWR – RHYFEDDOD Y CYLCHOEDD COED

Adroddiad Arbennig gan y Dr Eurwyn Wiliam
Sain Ffagan

Yn 1967 derbyniodd Amgueddfa Werin Cymru gynnig hael yr Athro Geraint Gruffydd, aelod o Bwyllgor yr Amgueddfa, o hen dŷ Y Garreg Fawr i'w ail-godi yn Sain Ffagan. Trowyd yr hen dŷ yn sgubor tua diwedd y ganrif ddiwethaf, a thros y blynyddoedd tynnwyd ei simneiau ymaith, rhoddwyd haearn gwrymog ar y tô yn lle y llechi trwchus gwreiddiol, torrwyd drws enfawr yn un wal a thynnwyd yr holl balisoedd a'r distiau. Dim ond y waliau, coedwaith y to a thrawst enfawr y lle tân oedd ar ôl. Ond serch hynny, gellid yn rhwydd ail-greu patrwm yr hen dŷ wrth astudio tyllau'r distiau yn y waliau a thrwy gymharu y cynllun â rhai tai cyffelyb yng Ngwynedd.

Tŷ cerrig cadarn oedd Y Garreg Fawr, nodweddiadol o gynllun tai ffermwyr cyfoethog a man fonheddwyr Gwynedd yn ystod ail hanner yr 16ed a'r 17eg ganrif. Mae llawer o ffermdai'r ardal yn dyddio o'r cyfnod hwn ond prin iawn yw tai sy'n hŷn. Plastai yw'r rheiny yn ddi-eithriad, megis Cochwillan ger Bangor neu Gloddaeth ar y Creuddyn. Dyma hefyd gyfnod tai mawr megis Plas-mawr, Conwy, un o dai Tuduraidd gorau Cymru.

Enghreifftiau cyffelyb i'r Garreg Fawr yw'r Tŷ Mawr, Wybrnant a Thu-hwnt i'r bont, Llanrwst, ac mae dwsinau o rai eraill heb fod mewn cystal cyflwr. Ymhob un o'r tai hyn ceir ystafell fyw neu neuadd gyda dau ddrws (blaen a cefn) gyferbyn â'i gilydd yn arwain iddi. Wrth dalcen yr ystafell mae lle tân mawr agored a distyn nobl uwch ei ben, ac wrth ei ochr risiau cerrig troellog yn nhrwch y wal yn arwain i'r llofft. Yr ochr arall i'r ddau ddrws mae palis o dderw solat, gyda dwy ystafell lai y tu ôl iddo: rhain oedd y bwtri a'r parlwr.

Doedd dim cegin: byddai'r holl fwyd yn cael ei baratoi a'i goginio ar yr aelwyd, a byddai gwely yn aml yn y parlwr. Ychydig o ddodrefn oedd. Ceid byrddau, meinciau, stolion a chistiau, ond yr oedd cadeiriau yn brin. Byddai'r tai cyfoethocaf â deuddarn a chypyrddau ond nid oedd y dresel sy' mor nodweddiadol o'r ffermdai hyn heddiw wedi ei dyfeisio eto, na'r cwpwrdd cornel ychwaith. Nid oedd gwydr yn y ffenestri ond roedd loriau pren i gadw'r gwynt a glaw ymaith. Byddai'r palisoedd a'r waliau pren yn aml wedi eu haddurno â murluniau.


I fyny'r grisiau yr oedd dwy lofft fel arfer. Uwchben y neuadd yr oedd llofft fechan, a llofft fawr uwchben y pen arall gyda lle tân yn cynhesu honno. Dyma sy'n esbonio'r ddau gorn simdde: nid oedd lle tân yn y parlwr a'r bwtri. Cyplau a distiau derw oedd yn dal pwysau'r to o lechi trymion. Yn aml byddai'r tai hyn â simneiau tal. Un ffordd o ddangos cyfoeth oedd trwy gael corn simdde uchel, ac mae rhai tai â chyrn o uchder eithriadol megis Y Parc, Llanfrothen.

Amrywiai'r Garreg Fawr o'r patrwm arferol i'r graddau nad oedd i'r tŷ risiau cerrig ger y lle tân ond yn hytrach ysgol bren yn y gornel. Yr oedd hefyd fyrllasau pren i'r to, nodwedd sy'n arferol mewn tai pren er mwyn atgyfnerthu'r to rhag i'r trawstiau ddisgyn un ar ben y llall o dan y gwynt ond sydd yn ddi-anghenraid gyda wal gerrig gadarn. Awgrymai'r ddwy nodwedd hyn fod y tŷ ychydig yn gynt ei ddyddiad na'r rhelyw o'r math, sydd fel arfer o tua 1580 ymlaen yn Arfon. Cytunodd yr arbenigwyr oll y gellid dyddio y Garreg Fawr yn lled sicr i tua 1570, yn gadarn ynghanol oes y Frenhines Elisabeth pryd roedd ffermwyr lleol yn codi tai newydd iddynt eu hunain yn dilyn cyfnod da yn hanes amaethyddol y sir.

Dyma gyfnod chwyldro yn hanes adeiladau Cymru. Cyn hyn tai unllawr o bren oedd i bawb bron, adeiladau hir gyda ystafelloedd oedd yn agored i'r to. Nid oedd modd mynd i fyny'r grisiau i'r llofft — nid oedd na grisiau na llofft. Roedd yr ystafelloedd gwely ar y llawr daear, ac yn y neuadd roedd lle tân agored ar ganol y llawr. Gyda tai newydd diwedd oes Elisabeth y daeth y syniad o adeilad cerrig deulawr gydag aelwyd, llofft a grisiau yn gyffredin gyntaf ymysg ffermwyr Gwynedd.

Yn 1989 daeth cyfle i geisio cael dyddiad mwy cadarn i'r Garreg Fawr. Nid oes awgrym o enw'r perchennog gwreiddiol ymysg y dogfennau sydd wedi goroesi o'r cyfnod ac felly dim ond tystiolaeth yr adeilad ei hun sydd ar gael inni. Erbyn hyn mae dull ar gael sy'n gallu datgelu union ddyddiad adeiladu tŷ, gyda lwc, a hynny trwy gyfrif a chymharu'r cylchoedd tyfu yn y coed a ddefnyddiwyd yn yr adeilad.

Mae coeden yn ychwanegu cylch am bob blwyddyn o'i hoes ac mae'n rhwydd dyddio bonyn coeden sydd wedi ei thorri i lawr yn ddiweddar neu wedi ei chwythu drosodd gan y gwynt. Yn fwy ffodus byth, nid yw'r cylchoedd i gyd o'r un trwch. Os yw'n flwyddyn wael, mae'r cylch yn denau; ond os yw'n wanwyn a haf da, yna mae'r cylch yn un trwchus. Os ceir nifer o hafau da,



er enghraifft, ceir cyfres o gylchoedd trwchus yn nesaf at ei gilydd. Drwy gymharu patrwm y cylchoedd ar goed y gwyddys pryd y'i torrwyd i lawr, gellir hefyd geisio dyddio coed eraill. Erbyn hyn gwnaethpwyd cronolegau cylchoedd coed cadarn am sawl ardal ym Mhrydain, megis Iwerddon, canolbarth Lloegr a dwyrain Lloegr. Dynnid yn unig o adeiladau a ddyddiwyd gyda chymorth y dull hyn yng Nghymru hyd yn awr.

Nid yw'n bosibl dyddio pob coedyn na phob adeilad. Weithiau mae patrwm tyfu hollol unigryw i goedden, a gall coed un ardal dyfu mewn dull gwahanol i rai ardal arall oherwydd fod dylanwadau'r tywydd yn wahanol. Dyw hi ddim yn hawdd dyddio coed sydd wedi tyfu ar dir gwastad eang oherwydd i'w patrwm tyfu fod yn rhy gyson a heb ddigon o amrywiadau i gael eu hadlewyrchu yn y cylchoedd, ac nid yw'n rhwydd dyddio coed sydd wedi tyfu ym môn clawdd ychwaith. Rhaid wrth amodau caeth i allu dyddio'n sicr.

Mae'r mesurydd yn cymeryd cyfres o samplau o bob adeilad gan ddefnyddio drill arbennig i dyllu i ganol coedyn. Rhaid cael o leiaf 60 o gylchoedd cyn bod siawns da o ddyddio'r adeilad. Yna mae'r samplau yn cael eu dwyn yn ôl i labordy lle defnyddir cyfrifiadur i fesur trwch y cylchoedd a chymharu'r patrymau â'i gilydd, ac yna ac adeiladau ac ardaloedd eraill. Uned Ddyddio Cylchoedd Coed Prifysgol Nottingham fu ynghlwm wrth y gwaith o ddyddio'r Garreg Fawr ac adeiladau eraill yr Amgueddfa Werin, ac er na chafwyd llwyddiant bob tro yr oedd modd dyddio coed Y Garreg Fawr yn hollol sicr. Dyddiad torri'r coed sy'n cael ei fesur yn y modd hwn, wrth gwrs, ond gan i goed yn y gorffennol gael eu defnyddio'n wyrdd a heb sychu, mae hyn yn gyfystyr a dyddiad codi'r adeilad bob tro.

Yn achos Y Garreg Fawr cafwyd cyfatebiaeth perffaith â

chronoleg cylchoedd Iwerddon — dim syndod, efallai, o gofio tywydd Y Waunfawr! Y dyddiad oedd 1544, genhedlaeth gyfan ynghynt na'r disgwyl. Gellid dweud hefyd fod rhai o'r coed wedi dod o'r un goeden, neu yn sicr o goed a oedd wedi tyfu yn glos iawn i'w gilydd rhywle yn agos i safle'r tŷ. Mae'r dyddiad hwn o'r pwys mwyaf. Mae'n dangos fod ffermwyr cefnog a mân sgweiriaid Arfon yn codi tai cadarn genhedlaeth ynghynt nag a feddylid, sydd yn ei dro yn dangos fod ganddynt y modd i wneud hynny ynghynt eto na'r disgwyl. Bu dechrau'r chwyldro amaethyddol yn y cylch dipyn cynt na chanol oes Elisabeth, felly, ac yn wir cyn iddi esgyn ar yr orsedd.

Sail cyfoeth Arfon yn oes y Tuduriaid ac wedyn oedd magu gwartheg duon a'u gyrru yn finteioedd i farchnadau Llundain a de Lloegr. Roedd cadw defaid hefyd o bwys, ond prin iawn fyddai'r cnydau a dyfid mewn ardal agored a mynyddig fel Y Waunfawr. Mae'n amlwg i'r ardal fod yn sefydlog a chyfoethog dipyn ynghynt nag a dybiwyd — a dim ond rhai o oblygiadau dyddiad newydd Y Garreg Fawr yw'r rhain. Bydd cryn ddyfalu wrth inni geisio deall arwyddocad llawn gwrth dyddio'r cylchoedd coed. Byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrth unrhyw un sydd yn gwybod tipyn am hanes diweddarach Y Garreg Fawr, gyda llaw: ychydig iawn a wn i.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

**AR WERTH
TÂN TRYDAN**

Tân glo smal a phren derw
o'i amgylch
£18. Ffôn Llanberis 871
340

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr.

DALIER SYLW! TREFNIANT ARBENNIG

Rhaid i'r holl ddeunydd fod yn llaw'r golygyddion ar
NOS FAWRTH, MAI 22ain. Rhaid i bob pentref ofalu am **GRIW O**
BLYGWYR i ddod i Neuadd Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo erbyn 6.30 ar
NOS IAU, MAI 31ain.

DYMUNO'N DDA: Dymunwn y gorau i Miss Eirlys Jones, Maelor, ar ei hymddeoliad o'i gwaith fel cynorthwydd cartref. Hefyd i Miss Marian Wyn Jones 'Y Foel' ar ei hymddeoliad o'i gwaith fel athrawes yn Ysgol Glan Cegin, Bangor; ac i Edgar a Carys Owen, Glyn Awel yn eu menter o redeg busnes yng Nghaernarfon. Hefyd i Mrs Pat Parry, 1 Bryn Golan, yn ei swydd newydd fel cynorthwydd cartref.

Dymuna Pat ddiolch i staff, staff y gegin, a phlant yr ysgol am yr anrhegion a dderbyniodd ganddynt ar ei hymadawiad o'i gwaith yng nghegin yr ysgol ddiwedd y tymor. **LLONGYFARCHIADAU** i Mrs Taylor, Baladeulyn ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Cofion cynnes atoch Mrs Taylor; i Mr a Mrs Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd ar ddathlu eu Priodas Berl; i Mr a Mrs Greasley, Minafon, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bach, Ian Morris, i'w merch Janet a'i gŵr Alwynne, brawd bach i Kaylee; i Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion, ar ddod yn nain. Ganwyd mab bychan, Dafydd Elis, i'w mab Eilian a'i wraig Betty. Rydym yn falch iawn o glywed eich bod wedi gwella yn ddigon da i gael dod adref, Mrs Jones — gobeithio y byddwch yn teimlo'n well eto ar ôl cael dōd adref i Bron Eifion.

CROESO ADREF O'R YSBYTY: i Mr George Taylor, Baladeulyn; Mrs Parry, Rhes Eilian; Mrs Heulwen Huws, Argoed; Mrs Luned Coles, Bro Waun; Mrs Parry, Clydfan; Mr R. O. Jones, Y Bwthyn; Mrs Carol Griffiths, 8 Bryn Golau, Mrs Emsul Jones, Bro Waun a Rhys Huws, Argoed.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn ddwys â: Mr Dave Parry, Stad Bro Waun, yn ei brofedigaeth o golli ei dad; Mrs Ray Hughes, Manchester House, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod; Mr Arthur Griffith, Eirianallt a Mr Dafydd John Griffith, Tref Eilian, ar golli eu chwaer.

DIOLCH: Dymuna Mrs Ray Hughes, Manchester House,

ddiolch o galon i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Arfon. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Gwilym a Mair Williams, Fferm Bodhyfryd, ddiolch o galon am y cardiau, blodau ac anrhegion ar achlysur dathlu eu Priodas Berl. Diolch i Delyth a Bethan am y parti annisgwyl yn y 'Stables'.

CROESO ADREF: Croeso i Nan Wyn adref yn ôl o Dde Affrig, a dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd fel swyddog datblygu dros ieuencid yng Ngogledd Cymru gyda'r Presbyteriaid.

RECORDIAD SAIN: Yn y Ganolfan nos Fawrth, Mai 8, bydd cwmni Recordiau Sain yn recordio sgwrs ar 'Atgofion' gan Mr Ifor Bowen Griffith, Caernarfon. Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau'r Gymdeithas Lenyddol neu unrhyw un sydd yn dymuno bod yn rhan o'r gynulleidfa. Bydd y cyfarfod yn rhad ac am ddim.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: 1, £40 — Mrs Jeanifred Jones, Glyn Ceris; 2, £25 — Mr Elfyn Griffith, 6 Tŷ Hen; 3, £10 — Dr Huw Roberts, Hafodty, Rhosbodrual.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Mawrth 22, gyda Irene Roberts yn y gadair croesawyd William Owen, Borth y Gest atom. Cawsom noson ddifyr iawn yn cael hanes ei blentyndod yn Sir Fôn.

Cydymdeimlodd y llywydd â Miss B. M. Jones a K. M. Jones y ddwy wedi colli brodyr yng nghyfraith. Croesawyd Miss Griffith, Betws Garmon, yn ôl ar ôl bod yn yr ysbty. Gwesteion y te oedd Janet Price a Rhian Jones. Enillwyd y raffl a roddwyd gan Rhian gan Mrs K. M. Jones. Diolchwyd i William Owen gan Glenys Williams.

Dewiswyd rhai o'r aelodau i fynd i'r gystadleuaeth chwaraeon yng

nesaf ar Ebrill 26 gyda Wil Ifor Jones, Croesor, yn dangos ffilm. **NOSON GOFFI:** Cynhaliwyd Noson Goffi yn y ganolfan Nos Wener, Mawrth 23 er budd Apêl Towyn. Enillwyd y raffl oedd: Mrs Jane Roberts (Potel Wisgi); Mrs Carys Jones (Ffrwythau); Mrs Griffiths, Gorphwysfa (Nwyddau); Mrs Jean Jones (Tocyn Anrheg); Gerallt Jones (Ŵy Pasg); Mrs C. Jones, Bryn Derwen (Gwin); Mrs O. T. Jones (Ffrwythau); Mr Rol Williams (Gwin); Mrs R. A. Hughes (Sieri); Mrs Sheila Roberts (Ŵy Pasg); Mrs J. Bradshaw (Nwyddau).

Gwnaed elw o £359. Diolch yn fawr i bawb am bob cymorth ym mhob ffordd.

Hefyd diolch i bawb a anfonodd gelfi a dillad i'r ysgol fore Sadwrn, Mawrth 10; i'r Ysgolfeistres a Mr Gwilym J. Roberts am bob cymorth; i'r merched am dderbyn y pethau yn yr ysgol; i Mr Lleufer Pritchard am gael benthyg y trailer. Cafwyd llond y trailer a'u danfon i'r WRVS ym Mae Colwyn er budd Apêl Towyn. Derbyniwyd gyda mawr ddiolch.

YSGOL WAUNFAWR: Ar ôl cael ein socian a'n syrffedu gyda'r efengyl yn ôl y Cwricwlwm Cenedlaethol, daw Epistol yr Asesu i'r wyneb gyda'i holl gymhlethdodau! Sut yn y byd rydach chi'n pwyso a mesur llawenydd, chwilfrydedd, dyfalharhâd a gwir fodlonrwydd?

Dyna deimlodd athrawon a phlant yr ysgol wrth wyllo'r wyth cyw hwyaden yn pigo'u ffordd allan o'r plisgyn bregus — a mentro o ddiddosrwydd yr ŵy yng ngwydd pawb. Plesedr pur oedd gweld adweithiau'r plant. Ar ôl wyth diwrnod ar hugain o droi wyau a chofnodi'r datblygiadau, roedd gwrth y geni yn rhyfeddod ac yn arwyddocad newydd o fywyd a'r gwanwyn i'r plant.

Roedd ambell un o'r athrawon hefyd wedi llwyr ymgolli yn y deor, fel iddi anghofio'r cacennau oedd yn crasu yn nosbarth y babanod! Llosgi'r cacennau! a hithau wedi hen basio dydd Mercher lludw! Bu'r etholiad i enwi'r ieir a'r ceiliog yn llwyddiant mawr ac o fwyafrif sylweddol etholwyd Wali yn enw ar y ceiliog a Bela, Beca, Wini a Blodwen yn enwau ar yr ieir. Ymddiheurwn i bob nain neu fodryb os yw'r enwau yn orgyfarwydd, feiddiwn i ddim awgrymu fod ambell i hen 'froliar' yn eich plith!

Ar Ebrill 4, bu'r tîm Pel droed 5

Mhencampwedd Gwynedd. Ond er gwisgochrysau lwcus y Pencampwyr Ysgol Sul, ni ddaeth yr hogiau adref yn llwyddiannus y tro yma. Gweithio'n g'letach ar y 'tic-tacs' erbyn y tro nesa, hogial Cafodd Safon 1, 2, 3 a 4 wahoddiad i gyngerdd yn Neuadd P.J. yn y Brifysgol ym Mangor. Roedd Cerddorfa Ieuencid Gwynedd, Band Chwyth Gwynedd, y Band Pres a'r Côr Telynau yno. Roedd y rhaglen yn ddiddorol iawn, yn cynnwys cerddoriaeth adnabyddus fel cân thema 'Monty Python' a rhai tebyg.

Fe fu'r plant ieuengaf draw i'r Pili Palas ar bnawn Mercher bendigedig, ond os oedd yr awel yn finioig wrth groesi Pont Britannia, roedd pawb yn chwys diferol yn y tŷ gwydr trofannol. Rhaid dweud mai tila iawn yw lindys yr Ysgol o'i gymharu â lindys anferth y Pili Palas — y gwres sydd yn gwneud y gwahaniaeth meddai'r arbenigwr — choelia i fawr!

Mae'r wythnos olaf o'r tymor wedi bod yn wythnos o wasanaethau arbennig am yr wythnos sanctaidd. Trefnwyd a chynhyrchwyd y gwasanaethau gan Mrs Eames. Rhaid dweud i ni gael gwefr a bendith wrth weld plant yn eu gwyleidd-dra diffuant yn eistedd wrth fwrdd y Swper Olaf. Fore Gwener daeth y Parch Ganon Barry W. Thomas atom i'n hannerch.

Ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â Mrs Pat Parry o'r ysgol. Bu Mrs Parry yn gweithio yn y gegin ac fel goruchwyliwr amser cinio am ddeng mlynedd. Dymunwn iechyd a hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd.

ARHOLIADAU: Yn ystod Mehefin a Gorffennaf bydd amryw o'n plant a'n pobl ifanc yn sefyll arholiadau. Dymunwn y gorau iddynt i gyd. **LLONGYFARCHIADAU:** Roedd yn braf darllen Tudalen yr Ifanc yn rhifyn mis Ebrill o'r Eco a gweld fod Emma a Kevin, Hafan, yn cael eu canmol am am waith da mewn cystadleuaeth. Da iawn chi, daliwch ati, a triwch berswadio eich ffrindiau i ymddiddori yn nhudalen yr Ifanc.

COFION: Anfonwn ein cofion at Miss K. Humphreys, sydd ar hyn o bryd ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, ac hefyd at Mrs Annie Evans, Glaslyn sydd yn Ysbyty Eryri.

Am wasanaeth fframio cyflawn — **LLUNIAU TYSTYSGRIFAU, TAPESTRY:** —
ELWYN PRITCHARD
Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS
870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch cartref os dymunwch

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI

72"
42"
£330

38"
42"
£240

Esiampl o bris a gosod
Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i
J R PRITCHARD, 14 Glanrafon, Bontnewydd
Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

BRYN
(B & K Williams)
Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)
Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

PENCAMPWYR PÊL-DROED YR YSGOLION SUL



Tîm dan 11 oed.

YR YSGOL SUL: Cynhaliwyd gemau Ysgolion Sul yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol ym Mangor ddiwedd mis Mawrth. Roedd cynrychiolaeth dda o'r pentre yn cymerid rhan, cafwyd dau dîm peldroed dan 11 oed, ac un tîm dan 14 oed. Un tîm oedd dan 11 oed a dan 14 oed yn chwarae pêl-rwyd.

Tîm A pel-droed dan 11 oed oedd: Rhys Huws, Iolo Rhosart, Edryd Williams, Osian Elfryn a Gareth Cadwaladr. Colli fu eu hanes yn y gêm gyntaf ond gêm ddi sgôr oedd yr ail.

Tîm B dan 11 oed oedd Llyr Jones, Kevin Davies, Dylan Jones, Llion Williams, Gerallt Jones a Huw Gwilym. Chwaraewyd pum gêm gan sgorio deg gôl, a dim ond gadael un gôl i'r rhwyd yn eu herbyn. O ganlyniad rhaid oedd eto ddychwelyd i Fangor i chwarae yn y rownd derfynol. Tîm salem B o Gaernarfon oedd eu gwrthwynebwyr a'r sgôr terfynol oedd 1-0 i Waunfawr.

Tîm o dan 14 oed oedd: Eilir Jones, Deian Elfryn, Ceirion Williams, Andrew Davies a Gavin Owen. Chwaraewyd tair gêm gan sgorio saith gôl a heb adael un gôl i mewn yn eu herbyn. Yn y rownd derfynol yn erbyn Brynrodyn, y sgôr oedd 3-0 i Waunfawr. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm am fod yn fuddugol.

Tîm pêl-rwyd dan 11 oed oedd Alison Owen, Kirsty Jones, Ffion a Lowri Edwards, Llio Rhisiart, Heledd Elfryn, Gwenno Owen,



Tîm dan 14 oed

Manon Evans a Bethan Cadwaladr. Chwaraewyd dwy gêm gan gollu un ac ennill y llall.

Tîm pel-rwyd dan 14 oed oedd: Catrin Keller, Delyth Jones, Anwen Jones, Ceryl Davies, Heddu Gwynedd Iona a Awena Williams, Kailey Jones, Elain Owen a Sharon Owen. Chwaraewyd tair gêm - ennill un a'r ddwy gêm arall yn gyfartal. Pe baent wedi sgorio un pwynt yn ychwanegol fe fyddent wedi mynd drwodd i'r rownd gyn-derfynol.

Da iawn chi am chwarae cystal. Diolch i'r rhieni am gludo'r plant yn ôl a blaen ac am eu cefnogaeth frwd. Diolch arbennig i Anti Christine ac Anti Carys am roi oriau gyda'r nos i ymarfer efo'r genod, ac i ynci Garry am reoli a siarad tic-tacs hefo'r hogia.

TRIP: Bydd trip yr Ysgol Sul ar fehefin 30 yn mynd i Butlins unwaith eto. Y pris yw £3 i oedolion a phlant; £2 i bensiynwyr; plant o dan 3 oed am ddim. Am fanylion pellach cysylltwch â: Llinos Cadwaladr (Capel Croesywaun) a Bethan Williams (Capel Bethel). £1.50 yw'r gost i blant sy'n mynychu ysgol Sul Bethel.

YR URDD: Roedd y tywydd yn ffafriol iawn ar gyfer y daith gerdded heibio cae Caled i gefn Du ac yn ôl heibio Grasbil, nos Fercher, Mawrth 28. Roedd Anti Carys yn mygu'n lan wrth drio cyd-gerdded gyda'r llu aelodau a ddaeth ar y daith.

Nos Wener, Ebrill 6 daeth tymor yr Urdd i ben gyda disgo yng nghwmni'r grŵp 'Beganifs'. Diolch i'r hogiau am roi eu hamser i ni, a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau i'r parti recorders ar ddod yn ail yn y gyatdleuaeth dan 12 oed yn yr Eisteddfod Sir.

Llongyfarchiadau i lolo Rhisiart, Rhys Huws ac Osian Elfryn am ddod yn ail gyda'u cywaith paentio yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. hefyd i Heledd Elfryn a ddaeth yn ail am waith 2D o dan 10 oed. Bydd dau byped gan Osian Elfryn a Lowri Glyn a gafodd gyntaf ac ail yn yr Eisteddfod Sir, i'w gweld yn yr arddangosfa Gelf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd yng nglynllifon.

Ar ddiwedd tymor yr Urdd dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi rhoi eu hamser i'r plant yn ystod y tymor. Diolch hefyd i'r rhai fu'n eu hyfforddi a'u cynorthwyo ar gyfer gwahanol gystadleuthau yn yr Eisteddfod a'r chwaraeon. Diolch i'r plant am fod mor ffyddlon i'r cyfarfodydd. Cawn edrych ymlaen at dymor newydd yr Hydref yma.

Bydd penwythnos yng Nglanllyn i blant safon 3 a 4 ar Fehefin 15-17. os oes gennych ddiddordeb dowch am fanylion gan Anti Nan.

Erbyn daw'r rhifyn hwn o'r 'Eco' allan bydd parc Glynllifon yn ferw o gystadlu a pherfformio. Dymunwn yn dda i'r rhai o'r pentref sydd yn cystadlu yno - i'r bum merch fach, Rhian, Gwenllian, Heledd, Lowri a Sioned fydd yn dawnsio yn seremoni brynhawn Mawrth a phrynhawn Gwener; i Eifion Glyn, Plas Bodhyfryd, sydd yn feistr un o seremoniau'r prynhawn; i blant safon 3 a 4 ac Elin Gwilym a Llio Mair Rhisiart fydd yn cymryd rhan yn unigol ym mhasiant y plant; i bawb o'r pentref fydd yn brysor yng ngweithgareddau'r Eisteddfod; i Gareth Jones, Glyn Ceris, sydd yn brif stiward yr Eisteddfod, ac i bobl ifanc ysgol Syr Hugh Owen sy'n cymryd rhan yn y Sioe Gerdd a'r Opera Roc.

GENEDIGAETH: Gannwyd tri mab bychan i Janet a Peter Greasley, mae'r tri bach yn yr ysbyty. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddynt, i'w rhieni a'u teulu.

DIOLCH: Dymuna Nancy Williams, Nanhoron, ddiolch i ffrindiau a chymdogion teulu'r Nant am yr holl garedigrwydd a gofal a gafodd yn ddiweddar.

**FIDEO
FIDEO
FIDEO**
Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol
JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau
agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

**Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.**

Beth am ddysgu
dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

Joelas

CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

GLADRAGS
LLANBERIS

PAM MYND I
GAERNARFON,
BANGOR AC
YMHELLACH
HEFO DILLAD I
BOB OED A
MAINT YMA'N
LLANBERIS AM
BRISIAU BAR-
GEN ?

Be ga i'n bresant?
Dewch yma am

- * Ddillad Merched
- * Dillad Dynion
- * Dillad Plant
- * Dillad Gwlad
- * Mohair ac Aran
- * Dillad Lledr
- * Dillad Isa
- * 'Accessories' fel bagiau
- * a llawer mwy

**CYNNIG
ARBENNIG**



Yn rhatach os
dangoswch yr
hysbyseb hon

GALWCH I BRYNU BARGEN!

ATODIAD DINORWIG

CYFARFOD BLYNYDDOL: cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar nos Lun, 7fed Mai, am 7.00 yn y Ganolfan. Mae hwn yn gyfarfod pwysig i bawb yn y pentref gan y bydd cyfle i gynnig barn ar sut mae'r Ganolfan yn cael ei rhedeg a dewis swyddogion newydd ar gyfer llywio'r gwaith ymlaen am flwyddyn arall. Bydd y cyfarfod yma yn bwysig am reswm arall, oherwydd ar y cychwyn, cyn y cyfarfod blynyddol gobeithir dadorchuddio cofeb yn y Ganolfan er cof am y diweddar Mr Hugh Thomas. Mae croeso i bawb ddod i'r seremoni yma.

PWYLLGOR ADLONIAINT

DINORWIG: Mae'r criw sydd ynghlwm wrth y gwaith o drefnu Hŵyl Haf a'r Eisteddfod Flynyddol wedi penderfynnu galw eu hunain o hyn ymlaen yn Bwyllgor Adloniant Dinorwig. Wrth gwrs bydd angen smynd ati yn ddiymdroi yn awr i drefnu Hŵyl Haf am eleni. Os oes rhai a diddordeb mewn cynorthwyo gyda'r trefniadau yna cofiwch gysylltu â Mr Glyn Tomos.

NOSON LAWEN: Ar ôl bod wrthi yn ymarfer sgetsus, canu ac adrodd yn ystod mis Chwefror a Mawrth fe gynhaliwyd y Noson Lawen yn y Ganolfan ar nos Fawrth, 10fed Ebrill. Cafwyd noson i'w chofio gyda digon o hwyl a sbri, ac fe aeth y sgetsus i lawr yn dda. Hoffai trefnwyr y noson ddiolch i bawb am gymeryd rhan ac i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth arferol.

CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

Mae llawer o swyddogion yr 'Eco' wedi bod yn ysgwyddo'r baich o gynnal y papur ers 10 mlynedd a mwy. Maent yn flinderog ac yn llwythog!

Mae angen gwaed newydd. Ydych chi'n fodlon cynnig cymorth? Os ydych, yna dowch i

GYFARFOD BLYNYDDOL 'ECO'R WYDDFA'
yn y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG,
Nos IAU, MAI 3 am 7.30

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu cryn drafod yn y Wasg ac ar y cyfryngau ar y posibilrwydd o gyhoeddi papurau bro yn wythnosol. Ar Ebrill 28 bydd cynrychiolwyr yr 'Eco' yn mynychu cynhadledd yn Aberystwyth i drafod y syniad. Bydd adroddiad llawn yn y Cyfarfod Blynyddol.

Ydych chi eisiau 'Eco'r Wyddfa' yn wythnosol?
Ydych chi eisiau i'r 'Eco' barhau'n fisolyn?
Ydych chi eisiau i 'Eco'r Wyddfa' barhau o gwbl?

Dowch i'r Cyfarfod Blynyddol i fynegi barn.

CROESO CYNNES I HOLL DDARLLENWYR 'ECO'R WYDDFA'

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

Bistro

43-45 STRYD
FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871278



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES
CAERNARFON
Ffôn: 673075



CURIAD CALON CYMRU

TAC SIS BETHEL

UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93)670555

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Dyddiadur y Mis

Gweler Calendr Arbennig o Ddigwyddiadau Eisteddfod yr Urdd.

Mai

1. **Mawrth:** DEINIOLEN: Undeb y Mamau. PENRHOSGARNEDD: Cwlwm Clamai am 7.00.
3. **Iau:** Y FRO: Cyfarfod Blynnyddol 'Eco'r Wyddfa' yn y Sefydliad Coffa, Llanrug am 7.30.
4. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band 8.00.
7. **Llun:** GWYL FAI.
8. **Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr — ymweliad gan Antur Waunfawr. WAUNFAWR: Recordio sgwrs 'Atgofion' Ifor Bowen Griffith yn y Ganolfan.
11. **Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed. DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band.
16. **Mercher:** LLANRUG: Plaid Cymru — Helfa Drysor.
18. **Gwener:** Bingo yn Ystafell y Band 8.00. PENISARWAUN: Ffair Wanwyn yn Neuadd yr Eglwys.
22. **Mawrth:** Y FRO: Dyddiad olaf derbyn newyddion rhifyn 'Eco'r Wyddfa' Mehefin. PWYSIG!
25. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn ystafell y Band 8.00.
27. **Sul:** Gwasanaeth o Bafiliwn Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon. 10.30.
28. **Llun:** Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yng Nglynllifon Mai 28 i Mehefin 2.
31. **Iau:** CWM-Y-GLO: Plygu rhifyn Mehefin 'Eco'r Wyddfa' yn Neuadd yr Ysgol Gymuned 6.30. Cynrychiolwyr o bob pentref os gwelwch yn dda.

**CYMDEITHAS
HANES BRO
'ECO'R WYDDFA'**

**YMWELIAD Â
MYNWENT AC EGLWYS
LLANRUG**

**Nos Fercher, Mai 23ain
am 6.30 o'r gloch**

Arweinydd:
Dafydd Whiteside Thomas
Cyfarfod ym Maes Parcio'r
Fynwent.

**CYMDEITHAS
ADDYSG AMGYLCHFYD
GWYNEDD**

**BYD NATUR
DRWY LYGAD YR ARTIST**

gyda Duncan Brown
ym Mhlas Tanybwllch
**Nos Fawrth, Ebrill 10, 1990
am 7 o'r gloch**

Pris mynediad £1
(gyda mynediad am ddim
i aelodau'r gymdeithas.)

Cysylltwch â:
Geraint George (Ysg),
Plas Tanybwllch, Maentwrog,
Gwynedd. Ffôn: Maentwrog 324

**DYDDIADUR EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL YR URDD
DYFFRYN NANTLE AC ARFON
1990**

Mai 24 Iau: Sioe Gerdd 'Tri, Dau, Un' Theatr Gwynedd, Bangor 7.30.

25 Gwener: Sioe Gerdd 'Tri, Dau, Un' Theatr Gwynedd, Bangor 7.30.

26 Sadwrn: Sioe Gerdd 'Tri, Dau, Un' Theatr Gwynedd, Bangor 7.30; Cyngerdd 'Gig yn y Glyn' Pafiliwn yr Eisteddfod.

27 Sul: Oedfa'r Bore, Pafiliwn yr Eisteddfod 10.30.

28 Llun: Sioe Gerdd 'Tri, Dau, Un' Theatr Gwynedd, Bangor 7.30; Cyngerdd Bandiau Pres, Pafiliwn yr Eisteddfod 7.30.

29 Mawrth: Sioe Gerdd 'Tri, Dau, Un' Theatr Gwynedd, Bangor 7.30; Cyngerdd, Pafiliwn yr Eisteddfod 7.30; Cyngerdd 'Tair Merch', Stiwdio Barcud, Caernarfon 7.30.

30 Mercher: Sioe Gerdd 'Tri, Dau, Un' Theatr Gwynedd, Bangor 7.30; Cyngerdd 'Tair Merch', Stiwdio Barcud, Caernarfon 7.30; Cyngerdd, Pafiliwn yr Eisteddfod 7.30.

31 Iau: Sioe'r Plant 'Pumed Cainc y Mabinogi' Pafiliwn yr Eisteddfod 7.30; Cyngerdd 'Tair Merch' Stiwdio Barcud, Caernarfon 7.30.

Mehefin 1 Gwener: Sioe'r Plant 'Pumed Cainc y Mabinogi' Pafiliwn yr Eisteddfod 7.30; Siarad Cyhoeddus/Sgets, Ysgol Dyffryn Nantlle 6.30.

3 Sul: Cymanfa Fodern, Pafiliwn yr Eisteddfod 2.30; Cymanfa Ganu, Pafiliwn yr Eisteddfod 8.00.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

**43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

FFÔN:

LLANBERIS 871470

**Contractau
Weirio Tai**

**Cawodydd Trydan
ac ati**

CYNGERDD

Pafiliwn yr Eisteddfod
Nos Sadwrn, 26 Mai

'Gig yn y Glyn'

Geraint Lovgreen a'r Enw Da
Jess
Sobin a'r Smaelliaid.

OEDFA'R BORE

Pafiliwn yr Eisteddfod

Bore Sul, 27 Mai

I ddechrau am 10.30 o'r gloch.

CYNGERDD

Theatr Gwynedd, Bangor.

Nos Iau, 24 Mai; Nos Wener,
25 Mai; Nos Sadwrn, 26 Mai;
Nos Lun, 28 Mai; Nos Fawrth,
29 Mai; Nos Fercher, 30 Mai.

**Sioe Gerdd:
'Tri, Dau, Un'**

Geiriau: Cefin Roberts
Cerddoriaeth: Gareth Glyn
Cynhyrhydd: Linda Brown
Cyfarwyddwr: Cefin Roberts
Cyfarwyddwr Cerdd:
Gareth Glyn.

Agorir y drysau am 7.30 o'r gloch.
Dechreuir am 8.00 o'r gloch

CYNGERDD

Pafiliwn yr Eisteddfod

Nos Lun, 28 Mai

**Band: Williams Fairey
Engineering
Band Prês**

Ysgolion Gwynedd.

Agorir y drysau am 7.30 o'r gloch
Dechreuir am 8 o'r gloch.

CYNGERDD

Pafiliwn yr Eisteddfod

Nos Fawrth, 29 Mai

**Dafydd Iwan
Ar Lûg.**

Agorir y drysau am 7.30 o'r gloch
Dechreuir am 8.00 o'r gloch.

CYNGERDD

Stiwdio Barcud, Caernarfon
Nos Fawrth, 29 Mai; Nos
Fercher, 30 Mai; Nos Iau, 31
Mai

'Tair Merch'

Awduron: Gwawr Maelor ac
Ian Selwyn Lloyd
Cynhyrhydd:
Alun Ffred Jones
Cyfarwyddwr:
Ian Selwyn Lloyd

Agorir y drysau am 7.30 o'r gloch
Dechreuir am 8.00 o'r gloch

DNW90

CYNGERDD

Pafiliwn yr Eisteddfod

Nos Fercher, 30 Mai

Bryn Terfel

Elinor Bennett

**Corau Meibion Caernarfon,
Dyffryn Nantlle, Yr Eifl**

Agorir y drysau am 7.30 o'r gloch
Dechreuir am 8.00 o'r gloch.

CYNGERDD

Pafiliwn yr Eisteddfod

Nos Iau 31 Mai a

Nos Wener 1 Mehefin

SIOE Y PLANT

'Pumed Cainc y Mabinogi'

Awduron: Gwenno Hywyn a
Ieuan Parri

Cerddoriaeth: Hefin Elis
Cynhyrhydd: Sian Jones
Cyfarwyddwr: Carys Huw.

Agorir y drysau am 7.30 o'r gloch.
Dechreuir am 8.00 o'r gloch.

SIARAD

CYHOEDDUS/SGETS

Ysgol Dyffryn Nantlle

Nos Wener, 1 Mehefin

Cystadlaethau Timau

Agorir y drysau am 6.30 o'r gloch
Dechreuir am 7.00 o'r gloch.

CYMANFA FODERN

Pafiliwn yr Eisteddfod

Pnawn Sul, 3 Mehefin

Arweinydd: Dafydd Iwan

Band: Pry Clustiog

Eitemau gan Ysgol Pendalar
Dechreuir am 2.30 o'r gloch.

CYMANFA GANU

Pafiliwn yr Eisteddfod

Nos Sul, 3 Mehefin

Arweinydd:

Gareth Hughes Jones

Organydd: Gwyn Lewis

Eitemau gan: Teulu Hendre
Cennin.

Dechreuir am 8.00 o'r gloch.

**Am ragor o fanylion
cysyllter â**

**Eirían Dulyn Owen,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Siambr Banc y Midland,
Stryd y Dŵr,
Penygroes, Caernarfon,
Gwynedd LL54 6LW**

**DEWCH I FWYNHAU WYTHNOS
O ADLONIAINT YNG NGHWMNI
TALENTAU IEUANC Y FRO**

CHWARAEON

HEN GOLI LLANBÊR

Sgwn i faint ohonoch sy'n cofio'r cyfeirio a fu ar dudalen ôl yr 'Eco' dros ddeng mlynedd yn ôl, at y gŵr rhyfeddol hwnnw y Dr R. H. Mills-Roberts, MRCS, LRCP, yn rhinwedd ei swydd fel meddyg y chwarel a gôl geidwad Llanberis, Preston North End a Chymru yn ystod ugain mlynedd ola'r ganrif ddiwethaf?

Credwn ar y pryd fod ei yrfa wedi darford cyn iddo ymgartrefu yn Llanberis, ond mewn sgwrs â Arwel Jones yr wythnos ddiwethaf fe ddeallais nad oedd hynny'n wir. Fe chwaraeodd hwn dros ei wlad tra'n byw yn y pentref!

Fel y gŵyr nifer ohonoch, rwy'n siŵr, bu Arwel wrthi ers misoedd bellach yn paratoi ei lyfr 'Y Darrans — hanes peldroed yn Llanberis', sydd i'w gyhoeddi cyn y Nadolig fel rhan o ddatliad sefydlu pel droed yn y pentref ers canrif.

Yn ystod un o'i ymweliadau niferus â'r archifdy yn ddiweddar, fe gyfarfu â dau ŵr arall oedd ar drywydd hanes y bêldroed yn lleol, sef Twm Davies o Lanrug, ac Ian Garland. Pêl droed yn Lanrug yw maes ymchwil Twm, ac mae Ian (cyd-awdur gyda Wyn Gray-Thomas y llyfr 'Canaries Sing Again' a gyhoeddwyd yn 1986) yn ymchwilio i hanes peldroedwyr rhyngwladol Cymru. Ganddo ef y cafodd Arwel y wybodaeth a ddilyn:

Gŵr gweddol fychan ei faint ydoedd Mills-Roberts, yn 5 troedfedd ac 8 modfedd ac yn pwyso 11 stôn. Tra'n ddisgybl yn Ysgol Friars, Bangor, ac yn fyfyrwr yng ngholeg Aberystwyth cymerai bleser mawr mewn chwarae Rygbi a Phel droed, ond wedi symud i astudio yn Ysbyty St. Thomas' yn Llundain yn 1882 rhoddodd y gorau i'r Rygbi a bu'n cynrychioli tîm yr ysbyty yn ogystal â'r Casuals, y Corinthians, y Crusaders a Barnes fel golgeidwad. Yn y cyfnod hwn y daeth 5 o'i 8 cap dros Gymru iddo, sef yn erbyn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon yn 1885, Lloegr yn '86 a Lloegr eto yn '87.

Roedd galwadau ei waith fel meddyg yn drwm arno yn y



Tîm Pêl-droed Preston North End 1888, Dr Mills-Roberts — rhes gefn ar y dde.

cyfnod '86-'87, ac fe benderfynodd mai'r gêm yn erbyn Lloegr ar y Kennington Oval yn Chwefror '87 fyddai'r olaf iddo. Yr wythnos cyn y gêm, ac yntau'n chwarae dros dîm Llundain yn erbyn Swydd Stafford fe anafwyd ei ddwy arddwrn ac ni allai eu symud. Er i'r awdurdodau ddatgan nad oedd yn ffit i chwarae, fe berswadiodd ei gydweithwyr yn yr ysbyty i roi ei arddyrnau mewn plastar gyda splints at ei benelinau gan adael ei fysedd a'i fodiau yn unig yn rhydd. Fel yna y chwaraeodd dros Gymru, ac er

mai colli o 4 gôl i ddim oedd y canlyniad, fe gredai ei fod wedi chwarae un o gemau gorau ei fywyd, ac fe benderfynodd na fyddai yn rhoi'r gorau i chwarae wedi'r cyfan.

Fe'i gwahoddwyd i ymuno â Phreston North End ar ôl iddo gynrychioli'r Corinthians yn eu herbryn mewn gêm ar yr Oval yn 1887. Ef oedd eu golgeidwad yn 1887 pan gollwyd yn ffeinal cwpan yr FA yn erbyn WBA o 2 gôl i un; ac eto y flwyddyn ganlynol pan drechwyd Wolves o 3 gôl i ddim — ni sgorwyd yn erbyn Preston mewn unrhyw gêm gwpan y tymor hwnnw. Tra ar lyfrau Preston daeth y ddau

Bu'n feddyg ysbyty yn Ninorwig am 24 mlynedd, gan roi gwasanaeth yn Rhyfel y Boer yn y cyfamser. Yna, ar doriad y Rhyfel Byd Cyntaf fe ymunodd â'r fyddin ac yn 1918 fe'i penodwyd yn uwch swyddog iechyd Gogledd Cymru. Ar ôl ymddeol yn 1927 aeth i fyw i Ffestiniog a bu farw ym Mournemouthe yn 1935.

Rwy'n siŵr y cytunwch ei bod yn stori ryfeddol, ac wrth gwrs cewch ddarllen mwy amdano pan ddaw'r llyfr allan, ynghyd ag eglurhad o'r enw 'Darrans' a roir ar dimau pel droed Llanberis.

Os dymunwch danysgrifio'r llyfr, ar gost o £3 neu £4, yna

gap arall iddo, sef yn erbyn Lloegr a'r Iwerddon yn '88.

Yn 1890 daeth yn feddyg ysbyty Chwarel Dinorwig, ac wrth gwrs bu ei bresenoldeb yn gefn i sefydlu clwb pel droed yn y pentref. Cewch ddarllen am y cyfnod hwnnw yn llyfr Arwel, ac er iddo chwarae mewn nifer o gemau cyfeillgar dros Llanberis, nid oes cofnod iddo chwarae erioed mewn gêm gynghrair. Yn rhyfedd iawn, felly, gan gofio na chafodd gêm o safon uchel ers bron i ddwy flynedd, yn 1892 fe'i dewiswyd i dderbyn ei wythfed cap dros Gymru yn erbyn Lloegr.

cysylltwch ag Arwel yng Nghae Hywel, Pensiarnau.



Dr R. H. Mills Roberts.

CWIS CHWARAEON MIS MAI

Bu un cwestiwn yn arbennig yng nghwis mis Ebrill yn achos ambell ddadl ymysg y darllenwyr, yn ôl yr hyn a ddeallaf, a hwnnw oedd y cyntaf, sef ym mha wlad y ganwyd John McEnroe. Wel **Gorllewin yr Almaen** ydi'r ateb, a dyma'r gweddill:

Frank Stapleton yw'r chwaraewr sydd wedi sgorio dros ddau glwb gwahanol mewn dwy ffeinal wahanol yn Wembley (Arsenal yn '79 a M.U. yn '83). **Roodee** ydi'r enw a roir ar gae rasio ceffylau **Caer**. Fe ddyfernir 5 rhediad i fatiwr os bydd i'r bêl a darawyd ganddo daro helmed ar y llawr; baner ac athletwyr **Gwlad Groeg** sydd ar flaen yr orymdaith yn y gemau Olympaidd; **St. James' Park** yw enw caeau pel droed **Newcastle** a **Exeter**; **Gogledd Korea** a achosodd syndod i bawb drwy guro'r Eidal yng Nghwpan y Byd '66 a bu **Aberdare Utd** yn aelodau o gynghrair Lloegr hyd at 1927. **Troy** oedd enw'r ceffyl ddaeth yn fuddugol yn y Derby yn '79 ac wrth gwrs, yn y gêm **Polo** y chwaraeir nifer o 'chukkas'.

Barod am ychwaneg!

1. Yn 1955 y chwaraewyd am yr 'European Intercity Fairs Cup' am y tro cyntaf (yr UEFA Cup ydi hi bellach). Pa dîm fu'n cynrychioli Prydain ynddi y flwyddyn honno ac a gollodd yn y ffeinal o 8 gôl

i 2 dros 2 gymal yn erbyn Barcelona?

2. Pa gwmni rhyngwladol sy'n berchen y clwb pêl droed PSV Eindhoven?

3. Pwy yw'r unig bencampwr bocsiu pwysau trwm y byd na chafodd ei guro trwy gydol ei yrfa broffesiynol o 49 gornest?

4. Pa glwb pêl droed yw'r unig un sydd wedi chwarae yn 6 adran cynghrair peldroed Lloegr, sef y Gyntaf, Ail, Trydydd, Pedwaredd, Trydydd (de) a'r Trydydd (Gogledd)?

5. Pa oedran mae'n rhaid i geffyl fod cyn y caiff redeg yn y Grand National?

6. Pa dîm pel droed sy'n chwarae ar 'The Shay'?

7. Pa gêm dan-do bobolgaidd a elwid yn wreiddiol 'Pok-ta-Pok'?

8. Yn 1988, am y tro cyntaf erioed, fe ddewiswyd dau frawd i chwarae dros y Barbariaid. Pwy oedden nhw?

9. Pwy oedd y peldroediwr a chwaraeodd yn ffeinal cwpan yr FA yn 1951 fel amatur ac yn ffeinal yr un gwpan yn 1961 fel proffesiynol?

10. Pa rif yw'r cyntaf, rhwng 100 a 200, sy'n amhosibl i chwaraewr dartiau orffen arno gyda dwbl?